

ECO'R WYDDFA



Rhif 172

HYDREF 1991

Pris 25c



YR ECO I DDOD I BEN?

Bydd Eco'r Wyddfa yn dod i ben gyda rhifyn ola'r flwyddyn hon os na ddaw cenhedlaeth newydd o wirfoddolwyr i lenwi'r swyddi allweddol.

Mae swyddogion presennol y papur wedi bod wrth y gwaith ers blyneddau ac maent yn teimlo bellach nad oes ganddynt ddim byd newydd i'w gynnig.

Ers pymtheg mlynedd bu'r Eco'n un o bapurau bro mwyaf llwyddiannus Cymru. Mae ei gylchrediad wedi aros yn gyson dros 2,300 ac mae'n cynnal ei hun yn adlewyrchu pethau gorau'r fro a'i phobl.

Ond, erbyn hyn, y mae'r baich o'i gynnal yn pwyso'n drwm ar nifer fechan o wirfoddolwyr. Ar hyd y blyneddau gwnaethpwyd sawl apêl ar gyfer llenwi gwahanol swyddi — ond prin iawn fu'r ymateb. Prin ryfeddol hefyd fu'r gefnogaeth, yn ystod y blyneddau diwethaf, i gyfarfodydd cyffredinol y papur.

Bellach, mae'r swyddogion yn teimlo mai digon yw digon.

Oherwydd hyn, cynhelir cyfarfod arbennig yn ystod mis Tachwedd pryd y disgwylir i bob un sydd â diddordeb yn nyfodol ein papur bro i fod yn bresennol. Pwysleisiwn, gyda gofid mawr, os na fydd ymateb y tro hwn yna rhifyn Nadolig 1991 o Eco'r Wyddfa fydd yr un olaf.

Golygyddion a Swyddogion



ECO'R WYDDFA

RHIF 172
HYDREF 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwynnaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwynnaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, HYDREF 31

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN, 4.

HYDREF 21

os gwelwch yn dda.

Llafar

AR DY FEIC!

Yr hen Norman Tebot roes ystyr arbennig i'r dywediad rai blynyddoedd yn ôl, ond bellach, mae ystyr a phwyslais pur wahanol yn cael ei roi arno. Yn gynharach eleni cyhoeddodd y llywodraeth strategaeth wahanol ar gyfer trafnidiaeth. Roedd angen cwtogi ar y defnydd o geir modur er mwyn atal mwy o lygredd rhag cael ei chwydu allan i'r amgylchedd. Roedd mwy o bwyslais yn mynd i gael ei roi ar drafnidiaeth gyhoeddus — bws a thrên mae'n debyd. Ond ni roddwyd sylw o gwbl i FEIC.

Rai dyddiau'n ddiweddarach, daeth datganiad arall o du'r llywodraeth yn pwysleisio'r angen am ymgyrch gyhoeddus i addysgu pobl ynglŷn â'r pwysigrwydd o ymarfer corfforol rheolaidd. Hyd yn oed o fewn y llywodraeth 'oleuedig'(!) bresennol, doedd neb yn medru cysylltu'r ddau ddatganiad.

Os oes angen amgylchedd ddiogel, di-lygredd a phoblogaeth iach a chorfforol ffit, yna paratowch ffyrdd a llwybrau fydd yn galluogi pobl i reidio beic mewn diogelwch.

Mae'n ymddangos ar hyn o bryd, mai rhywbeth yn gysylltiedig â hamdden yw reidio beic, ac nad yw'n cael ei gysidro fel unrhyw werth ymarferol. Onid Adrannau Technegol (a Hamdden) y Cynghorau Dosbarth sy'n gyfrifol am lunio llwybrau beic, tra bo'r Swyddfa Gymreig a'r Cynghorau Sir yn gofalu am briffyrdd (prin sôn am feics)?

A beth tybed sydd wedi digwydd i'r cynlluniau ynglŷn â Lôn Las Peris? Ar hyn o bryd mae'r beicwyr yn cael rhwydd hynt o Lanberis ar hyd glannau'r llyn, ond yn diflannu i dwnel Pen Llyn fel pe na bai disgwyl iddynt ddod allan o gwbwl yn y pen arall!

Yn ystod misoedd yr haf gwelwyd mwy a mwy o feicwyr ar ein ffyrdd. Onid yw'n hen bryd cael sustem o ffyrdd neu lwybrau diogel ar eu cyfer — nid yn unig ar gyfer y rhai sy'n hamddena, ond ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'u beics yn rheolaidd i fynd a dod i'w gwaith. Yn ôl atat ti, Norman!

(Ers i'r erthygl hon gael ei 'sgwennu, mae'n bosibl i feicwyr ddod allan o dwnel Penllyn!!)

BWRW'R SUL

Annwyl Olygydd,

Yn y gyfres newydd o 'Bwrw'r Sul' sy'n cael ei darlledu bob nos Sul am 7.15 p.m. mae 'na bethau digon od yn digwydd.

Mae 'na gyfle i'r gwylwyr ffonio'r rhaglen ac ennill gwobrau o bob math, ac ar ddiwedd y gyfres bydd pob enw, efo ateb cywir i unrhyw gystadleuaeth, â chyfle i ennill car Ford Fiesta Kingfisher.

Mae 'na gyfle hefyd i ennill arian, ond mae 'na ddau amod, mae'n rhaid dod yn aelod o'r clwb, ac ateb cwestiwn syml iawn.

Yn ystod y gyfres fe fydd ein camerâu yn mentro allan i wahanol

ardaloedd pan fo rhyw ddigwyddiad ymlaen. Os hoffech inni ymweld â'ch ardal chi, gadewch inni wybod beth sy'n digwydd; neu os ydych am roi syrpreis i rhywun, neu os oes ganddoch anifail od — neu anifail sy'n gwneud pethau od, gadewch inni wybod.

Os am fwy o fanylion ysgrifennwch at **Bwrw'r Sul, HTV Cymru, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ, neu ffoniwch (0222) 590586.**

Yn gywir,
IDRIS CHARLES
Is-Gynhyrchydd

Llythyrâu

Gwybodaeth am y Milwyr ar y Cei

Annwyl Olygydd,

Tybed a fyddai un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa yn medru fy helpu gyda'r ymholiad canlynol?

Rwy'n ymddiddori llawer mewn hanes teuluol ac wedi llwyddo i olrhain nifer o'm hynafiaid yn ôl i'r ddeunawfed ganrif. Er mwyn gwneud fy siart achau yn fwy ystyrlon i mi fy hun rwyf hefyd yn crynhoi cymaint o wybodaeth ag y medraf am fy mherthnasau agosaf.

Bu fy nhad farw yn 1943. Yn 1916 ymunodd â'r fyddin a rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd y flwyddyn honno bu'n hyfforddi gyda'r Peirianwyr Brenhinol mewn gwersyll yng Nghoed Helen gyferbyn â chastell Caernarfon.

Mae gen i hen gardiau post a anfonodd i'w fam yn dangos rhai o'i gyd-filwyr ac yntau yn adeiladu pont gychod a phont grog dros Afon Seiont, yn drilio ar y Cei, yn agor ffosydd ac yn sefyll wrth eu pebyll.

Rwy'n awyddus i wybod mwy am Wersyll Coed Helen. Cymry oedd y milwyr yno, llawer ohonyn nhw, fel fy nhad, o Forgannwg; mae'n debyg iddyn nhw gael llawer o garedigrwydd gan aelodau capeli tref Caernarfon a'r ardalwyr.

Tybed a oes gan rai o'ch darllenwyr atgofion am y milwyr hyn neu'n cofio straeon gan eraill amdanynt nhw? Byddwn yn fwy na balch i dderbyn unrhyw wybodaeth am y gwersyll neu'r milwyr, boed hynny'n lluniau neu'n adroddiadau o'r wasg leol yn 1916 neu'n atgofion.

Pe cawn i wybodaeth gadarn byddwn yn barod i deithio i Gaernarfon er mwyn sgwrsio ag unigolion neu fe fyddwn yn barod i dalu costau gohebu neu ffotogopio lluniau, mapiau, adroddiadau neu unrhyw ddeunydd arall.

Yn fyr, fe fyddwn yn hynod o ddiolchgar i dderbyn y mymryn lleiaf o gymorth yr hoffai unrhyw un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa ei gynnig i mi.

Yn gywir,
GARETH WILLIAMS
50 Crystalwood Road
Heath, Caerdydd CF4 4HW
Ffôn: (0222) 751091

Go Dda, Te

Y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn croesawu penderfyniad Glengettie, y cwmni te, i gyflwyno eu deunydd pacio'n ddwyieithog, ac yn falch o fod wedi gallu cynorthwyo'r cwmni yn y fenter hon.

Clywir yn aml gan rai cwmnïau a sefydliadau y rhesymau rhyfeddaf dros beidio â defnyddio'r Gymraeg ynghyd â'r Saesneg yng Nghymru, a'r rheiny'n resymau hollol anfasnachol fel rheol. Braf felly oedd cael ar ddeall mai rhesymau masnachol yn bennaf a symbylodd Glengettie i gefnogi dwyieithrwydd.

Gobeithio y bydd mwy o gwmnïau yn mynd ati yn awr i ystyried y manteision o gyflwyno'u defnyddiau'n ddwyieithog, ac yn dilyn esiampl clodwiw Glengettie yn y maes.

MEDWEN

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Ffoniwch **871213** i drefnu amser

Apêl Ymchwil y Galon

Yn ystod yr haf trefnwyd casgliad o dŷ i dŷ a dyma'r hyn a gasglwyd yn ardaloedd bro'r Eco.

Dinorwig £64.08; Deiniolen £101.50; Brynrefail £13.84; Llanberis £212.55; Nant Peris £15.85; Cwm-y-Glo £33.82; Llanrug £224.31; Bethel £88.68; Penisarwaun £76.21; Caeathro £43.66; Waunfawr £182.22.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r holl gasglwyr ac i bawb am gyfrannu mor hael. Os oes unrhyw un â diddordeb mewn dod yn aelod o bwyllgor Apêl Ymchwil y Galon, Caernarfon a'r Cylch, cysyllter â Mrs J. Whitaker, Lynton, Ffordd Bangor, Caernarfon.

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

LANSIO LLYFR HEN LUNIAU BRO ECO'R WYDDFA



Nos Fercher, Medi 18, yn Yr Oriel, Llanberis, lansiwyd llyfr 'Hen Luniau Bro Eco'r Wyddfa' gan Dr Dan R. Hughes. Y Gymdeithas Hanes leol a fu'n gyfrifol am gasglu'r lluniau at ei gilydd a'u cyhoeddi gyda chymorth gan Gyngor Gwlad Gwynedd. Yn y llun gwelir swyddogion y Gymdeithas gyda copïau o'r llyfr, ynghyd â Dr a Mrs Hughes. Daeth dros 100 o bobl i'r lansio swyddogol, ac y mae'r llyfr yn gwerthu fel tân gwyllt. Mae copïau ar gael gan Gwynfor Roberts, Ardwyn, Ffordd Capel Coch, Llanberis, neu yn y siopau lleol am £2. Bydd y Gymdeithas Hanes yn ail-afael yng ngweithgareddau'r gaeaf gyda chyfarfod yn Llanrug fis Hydref ar y Parch Peter Bailey Williams. Y siaradwr fydd Mr Edgar Parry, Caernarfon.

'Yn llunio cof mewn llun cain'...

Mae'r llinell uchod, allan o englyn gan y Prifardd Gerallt Lloyd Owen, yn ddisgrifad addas iawn o'r hyn y mae Mary Elliott, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun, yn bwriadu ei wneud gyda'i busnes newydd sydd yn dwyn yr enw 'PWYTHAU CAIN'. (Gweler hysbyseb 'Pwythau Cain' yn y rhifyn hwn o'r Eco.) Prif nod y busnes, yn ôl Mary, fydd cynllunio a chynhyrchu sampleri a fydd yn anrhegion cwbl bersonol ac unigryw ar gyfer achlysuron a dathliadau o bob math.

Dechreuodd Mary arbrofi gyda sampleri tua pum mlynedd yn ôl, gan eu cyflwyno'n anrhegion i berthnasau a chyfeillion. Mor frwdfrydig a chefnogol oedd ymateb pawb i'r sampleri hyn nes peri i Mary benderfynu dilyn cwrs busnes gyda Menter Gwynedd, gan sefydlu 'Pwythau Cain', a gweithio o'i chartref ym Mhenisarwaun.

Yn ogystal â gwneud sampleri mae Mary hefyd yn cynnig gwasanaeth gwniadwaith o bob math (e.e. gwneud dillad; newidiadau i ddillau; llenni, a.y.b).

Er prysured ei dyddiau ar hyn o bryd mae'n dal i lwyddo i weithredu fel un o lywodraethwyr Ysgol Tanycoed, Penisarwaun, ac fel ysgrifenyddes parti merched 'Lleisiau'r Gweunydd'. Tipyn o gamp i ferch a symudodd i fyw o'r Rhyll i Benisarwaun 16 o flynyddoedd yn ôl yn gwbl ddi-Gymraeg!

Am ragor o fanylion ynglŷn â 'Pwythau Cain' ffoniwch Mary ar Llanberis 872438, neu galwch heibio i'w chartref, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun, am arweiniad a chymorth ynglŷn â'ch dewis o sampleri, neu gyda'ch gwaith gwnio.

Gweler gyferbynn enghraifft o ddawn Mary. Lluniodd yr hysbyseb hwn a'i bwytho'n gywain.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

Colli Enwau

Rhodddwyd sylw o'r blaen i'r ffaith fod dringwyr a cherddwyr mynyddoedd yn bathu eu henwau (Saesneg!) eu hunain ar greigiau, clogwyni a chribau ein mynyddoedd. Yn ystod yr haf cefais brofiad personol o hyn. Teithiais i gopa Elidir fach, ac yna ymlaen dros yr Elidir fawr, Y Foel Goch, Y Garn a chyrraedd y Glyder. Roedd nifer fechan o bobl yn crwydro'r copäon, a bum yn sgwrsio â rhai ohonynt.

Roedd un bachgen ifanc wedi dringo'r Elidir am y tro cyntaf, ac yn bwriadu herio 'Eekhan' yn ystod y pnawn. Daeth yma o Leicester, gan wersylla yn Nant Peris.

Daethai'r ail berson o Wolverhampton y bore hwnnw, gan gychwyn am bump o'r gloch yn y bore. Cerddodd i fyny'r Tryfan, ac yna ar draws y ddwy Glyder. Roedd rhwng dau feddwl ynglŷn â diweddau ei siwrnai yng Nghwm Idwall neu yn Nant Ffrancon. 'I might carry on to the Eke Ann', meddai.

Ar gopa'r Glyder roedd dau gerddwr profiadol yr olwg yn cynllunio eu taith i gyfeiriad yr Elidir: 'We've crossed the Bristly Ridge, but we might have to descend sooner than we expect since the cloud cover is very low on the Khans,' oedd eu sylw.

'Eekha', 'Eke ann', 'Bristly Ridge', 'The Khans'.

Cyfeirio at Y Garn roedd y ddau gerddwr cyntaf. Rwy'n tybio mai sôn am Y Gribin a'r Carneddau roedd y ddau olaf.

Cywilyddus? Wrth gwrs. Ond mae pob un ohonoch chi drigolion bro'r Eco yn medru sefyll ar Bont Penllyn ac enwi'r holl gopäon sydd i'w gweld. Na fedrwch? Cywilyddus!

AR WERTH
PIANO

Barnes 6 octave

Cyflwr ardderchog
£550, neu'r cynnig agosaf
Ffôn: Caernarfon 76106
ar ôl 7.00 p.m.

♥ Gemi ♥ Bedyddio ♥ Iboed ♥ Priodas ♥

✱ Achlysur arbennig? ✱

✱ Anrheg unigryw? ✱

Beth am un o sampleri

**PWYTHAU
CAIN**

✱ Cynllunir pob sampleri
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniadwaith o bob math
gwneud dillad, newidiadau, llenni, a.y.y.b.

✱ Cysylltwch â

MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd ♥ Darnau o farddoniaeth

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad â Mrs Marian MacGuiness, Ardwyn, Llanrug, a'r teulu, ar farwolaeth ei mam a oedd yn byw yn Y Felinheli.


Bu farw Canon Gwilym Ffrank Hughes, gynt o Bod Ifor, Pont-rhythallt. Cydymdeimlir a'r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlir a Mrs Gracie Thomas, Gwyneth, Ann a Gwynfor, a'r teulu oll, ar farwolaeth Mr Hugh Thomas, Gwenallt, Rhythallt Terrace, ar ôl cystudd blin.

Dathlu penblwydd: Yn ystod gwyliau'r haf fe ddathlodd Amanda MacGuiness, Ardwyn, Llanrug, ei phenblwydd yn 18 oed. Hefyd dathlodd Patrick, ei brawd, ei benblwydd yn 21 oed. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Deallir fod Mr Owen Owens, 22 Bro Rhyddallt wedi gadael yr ysbyty ac yn cartrefu yng nghartref Plas y Bryn, Bontnewydd. Llongyfarchiadau iddo ar ddathlu ei benblwydd yn 93 oed ar 31 Gorffennaf.

Llongyfarchiadau i Elen Morgan Jones, Melbourne House, am ei llwyddiannau diweddar. Yn ystod y misoedd diwethaf daeth yn drydydd am glocsio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nhâf Elai, dan 12 oed. Mae hefyd wedi llwyddo mewn Gradd 1 gyda'r ffidil a Gradd 2 gyda'r piano. Mae'n aelod o Ysgol Ddrama Glanaethwy, a bu'n perfformio yn yr Wyl leuenctid yn Llundain ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Yr Wyddgrug gyda'r ysgol honno.



Merched y Wawr, Tymor 1991-92: Cynhelir y cyfarfodydd yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch ar yr ail nos Fawrth ym mhob mis. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

Bydd yr ail gyfarfod y gangen ar 8 Hydref pan ddaw dau aelod o'r heddlu atom i sôn am wyddoniaeth ffrensic. Ar yr 29 Hydref bydd cyfarfod ychwanegol pan drefnir ymweliad â Theatr Gwynedd i weld perfformiad o'r ddrama 'Dim Ond Heno'. Gellwch archebu tocynnau i'r ddrama gan Mrs Margaret Parri, y pris yw £4.50 a'r bws yn ychwanegol.

Gwellhad buan: Anfonwn ein cofion at Mrs J. Ll. Williams, Bod Fair, a dymuno adferiad iechyd buan iddi. Da deall fod Mrs Megan Williams, Bron Eryri, yn gwella, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am adferiad iechyd i Mrs Jennie Ll. Williams, Bod Fair, sydd yn Ysbyty Maelor, Wrecsam.

Diolch: Dymuna Mrs C. E. Roberts, Hedsor Villa, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu dymuniadau da, a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 95.

Dymuna Myrddin a Gaynor, Penterfyn, ddiolch yn ddiffuant am bob caredigrwydd a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar 11 Awst.

Dymuna Selwyn Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn, ddiolch yn fawr i'w ffrindiau a'i gymdogion am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty ac yn gwella gartref yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Marian MacGuiness, Ardwyn, Llanrug, ddiolch yn gynnes iawn i'r cymdogion a'i ffrindiau am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Y Gymdeithas Undebol: Nos Fawrth, gyda Mr Myrfyn Jones yn llywyddu, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas Undebol. Y siaradwr oedd Mr R. Gwyn Davies, Waunfawr a'i destun oedd 'Newid Gwaith'. Talwyd diolch iddo gan y Parch John Morris a Mr Emrys Owen. Cyfeiriwyd at waeledd ein trysoryddes Mrs Williams, Bod Fair, a phasiwyd i anfon ein dymuniadau am adferiad iechyd buan iddi.

Diolch: Dymuna Mr Cecil Williams,

DATHLU PRIODASAU



Deimwnt — Mr a Mrs Inigo Jones, Eilionwy, yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar ddechrau Medi.



Aur — Myrddin a Gaynor Williams ar achlysur dathlu 50 mlynedd o briodas ar Awst 11.

19 Hafan Elan, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a gafodd ar achlysur ei benblwydd yn 80 oed. Diolch arbennig i Mrs Dilys Jones, Warden Hafan Elan, am y parti ardderchog a drefnwyd iddo yn y Ganolfan.

Diolch: Dymuna Lily Aubrey Horman, Venice ddiolch i'w pherthnasau a'i ffrindiau am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 70 oed.

Dymuna Mrs Betty Peris Jones, Egryn Villa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ddiolch i'w theulu a'i

chymdogion a ffrindiau, am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniwyd tra yn cael llaw driniaeth yn Ysbyty Gwynedd, diolch hefyd i bawb a roddodd eu hamser i ymweld â hi yn yr ysbyty ac wedyn ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff Ward Prysor am eu gofal a'u caredigrwydd.

Diolch: Dymuna Derfel a Delyth Huws, Eithinog, Llanrug gynt, ddiolch i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion am eu anrhegion a'u dymuniadau da ar achlysur eu priodas ym mis Gorffennaf. Pob lwc i'r ddau yn eu cartref newydd yn Glasfryn, Rhosifaf.

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr


LLANRUG (parhad)

Llongyfarchiadau i Tudur Parry, Bryn Goleu, Stâd Minffordd ar ennill y wobwr gyntaf o £1,000 ym mhrif gystadleuaeth Celf a Chrefft, Eisteddfod Bro Delyn. Y mae'r lluniau o'w yn cyfleu'r modd y mae hamdden wedi goroesi y ffordd draddodiadol o fyw. Bydd yr arian yn hwb sylweddol at y gôst o fynd i America ac yna i Batagonia i wneud cywaith ar drigolion o ardal Caernarfon a aeth i fyw i'r Wladfa.

Graddiodd yng Ngholeg Politecnig Lerpwl ac mae bellach yn gweithio i'r Cyngor Prydeinig yn Llundain. Mae'n mwynhau helpu yn y Tate Gallery yn ystod y penwythnosau. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Pnawn Iau, Awst 8fed daeth nifer o gymdogion a ffrindiau Mr Cecil Williams, 19 Hafan Elan, ynghyd i'r Ganolfan i ddathlu pen blwydd Cecil yn 80 oed, ar y 29ain o Orffennaf.

Mae Cecil a Dilys wedi byw yn Hafan Elan ers yn agos i 12 mlynedd, ac wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd yn yr amser yma. Roedd y parti a gafwyd yng Nghanolfan Hafan Elan yn dangos pa mor boblogaidd ydi Cecil, ac mae hefyd yn uchel ei barch gan bawb yn Hafan Elan. Fel dywedodd y Warden Mrs Dilys Jones: "Ers deuddeg mlynedd yr wyf wedi bod yn ffodus iawn o gymydog, bob amser yn barod i wneud cymwynas; hefyd mae fy nyled yn fawr i Cecil, gan mai ef sydd wedi gweithio yn galed i gadw gweithgareddau y Ganolfan i fynd mor llwyddiannus am yr holl flynyddoedd, heb ei help o, mi fuasai yn wan iawn arnom. Pleser oedd cael y fraint o baratoi gwledd i ddathlu y penblwydd."



Lowri Angharad Roberts o Lanrug oedd yr enillydd yn y rhaglen olaf o 'Penawde' ar S4C ar Fedi 13.

Cafwyd teyrnged gan ei gyfaill, Emrys Owen, hefyd diolchodd Mr Owen i'r Warden, ac i Mr Arthur Jones, Mrs Ellen Jones, Mrs Doreen Fisher a Mrs Ceridwen Williams am eu help i drefnu'r wledd. Cydseinwyd hir oes i Cecil a Dilys a phob hapusrwydd yn y dyfodol.

Y penillion gan ei gyfaill Mr Emrys Owen, 9 Hafan Elan:

I Cecil boed clod heno — gofalwr
Tra ffyddlon i'r bingo
Ond daeth amser i riteirio
Yn wyth deg oed yn awr mae O!

Dyma gymydog gwerth ei gael
Ei gymwynasau bob amser yn hael
Dymunwn iddo ef a Dilys
Flwyddi eto o hwyrdydd hapus.

Diolch: Dymuna teulu y diweddar Dennis Williams gynt o 1 Bryn Gro, Llanrug, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a chydymdeimlad atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, mab a brawd annwyl iawn.

Coflo Dennis: Peiriannydd heb ei ail, ei hoff ddiddordeb yn ifanc iawn oedd peiriannau. Galwyd ef ymaith yn gymharol gynnar ar ei oes, yng nghanol ei ddyddiau, a phan yn anterth ei nerth, pryd y galleid disgwyl, yn ôl cwrs natur, fod llawer o flynyddoedd a defnyddioldeb yn ei aros ef. Dyma fel y buasem ni yn barnu, ond "nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi," medd yr Arglwydd. I'n golwg ni, tywyll ydyw yr oruchwyliaeth hon, ond y mae yn sicr fod ochr olau iddi pe gallem ni ei gweld.

Huned yn dawel, gorffwysed mewn heddych. Eiddunwn nawdd Duw ar weddw alarus, y ddau fab, ei fam a'i dad, ei chwaer, ac ar ei holl berthnasau yn eu trallod dwfn.

Er i'w gorff fynd trwy fawr gur — i orwedd
Yn ei weryd amhur;
Daw eilwaith, uwchlaw dolur,
O waelod bedd i wlad bur.

gan Iorwerth, Talysarn
am ei nai, Dennis Williams, gynt o 1 Bryn Gro, Llanrug.

EISTEDDFOD LLANRUG

Dowch i'r Eisteddfod


Nos Wener, 11 Hydref 1991
5.30 o'r gloch

yn Ysgol Brynrefail, Llanrug

Noson Celf a Chrefft
Nos Lun, 7 Hydref am 6.30

Mynediad: £1.50; plant 20c.

ENNILL PRIF GYSTADLEUAETH CELF A CHREFFT



Tudur Parry gyda'r gwaith buddugol.

Merched y Wawr: Bu cyfarfod cyntaf tymor newydd y gangen yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fawrth, Medi 10fed. Y llywydd oedd Phyllis Ellis. Croesawodd yr aelodau oedd yn bresennol gan gydymdeimlo â Meryl Green a Carys Wyn yn eu profedigaethau, ac anfon cofion a dymuniadau da y gangen at y rhai sy'n wael yn yr ysbyty neu gartref. Llongyfarchodd blant yr ardal ar eu llwyddiant yn eu arholiadau a hefyd y rhai a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Llongyfarchodd hefyd y gangen ar ennill y gwpan am 'Lyfr Lloffion' yng nghystadleuaeth y rhanbarth.

Y gŵr gwadd oedd Dr Paul Nickson, Bethesda, a rhoddodd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol Haemopathi.

Diolchwyd iddo gan Margaret Parry. Diolchwyd i'r merched a ddarparodd y banded gan Nan Humphreys. Enillydd y raffl oedd Nansi Lovatt.

Y Seindorf: Bydd y Band yn cynnal eu noson Tombola gyntaf o'r hydref ar nos Lun, Medi 30 am 7 o'r gloch yn Ystafell y Band. Croeso i bawb.

Bydd Noson Goffi gan y Band am 7 o'r gloch, nos Iau, Hydref 17, yn Ystafell y Band, gydag amryw o stondinau. Dewch yn llw.

Plaid Cymru: Yng nghyfarfod y pwyllgor yn ddiweddar apeliodd y swyddogion am gefnogaeth i weithgareddau'r flwyddyn. Bydd Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Y Gweledigaethu' yn Neuadd Ysgol Brynrefail, nos Fercher, 2 Hydref, am

7.30 o'r gloch. Mae tocynnau ar werth gan aelodau'r pwyllgor neu ffoniwch Caernarfon 5668, Caernarfon 4878 neu Llanberis 870237.

Ar nos Fercher, 16 Hydref, bydd Sarah Jones, Penisarwaun, yn rhoi arddangosfa o osod blodau sych mewn basgedi yn y Sefydliad Coffa am 7.30. Bydd croeso i ffrindiau.

Mae'r tâl aelodaeth yn ddyledus a daw'r casglyddion ar eich gofyn cyn bo hir. Dyma'r adeg hefyd i ymuno neu i ail-ymuno â'r Clwb Cant a'r enillwyr diweddaraf yw — Awst: 1, John Rowlands, Llys Forgan; 2, Mary Lloyd, Curry's, Caernarfon. Medi: 1, Raymond Ll. Jones, 2 Bryn Fedwen; 2, Phyllis Ellis, Penisarwaun.

Anfonwn ein cofion at ein haelodau.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Inigo Jones ar ddathlu trigain mlynedd o briodas.

Cydymdeimlwn yn gywir â'r rhai a gollodd anwyliaid yn ddiweddar.

Dymuniadau am wellhad buan i'r rhai fu'n cwyno yn eu cartrefi ac mewn ysbytai. Da yw eich gweld yn gwella. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi, ac aelodau newydd, yng nghyfarfodydd nesaf y gangen.

Llongyfarchiadau i Andrew a Maureen Williams ar enedigaeth eu merch fach Karen, chwaer i Rachel, a wyres eto i Mr a Mrs R. Williams, Bryn Llan.

Eisteddfod Llanrug: Cynhelir yr Eisteddfod yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ar nos Wener, 11 Hydref am 5.30 o'r gloch.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

**Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)**



YN CYFLWYNO
DARLITH
'Amgylchedd y Gorffennol'

GAN
Dr Elin Jones
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

YN
Oriel Eryri Llanberis

AM 7.30pm, NOS IAU, HYDREF 3ydd
MYNEDIAD 50c

DAN FLEW EIN LLYGAID

 hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

Twyllo Di-drugaredd

Mis Awst eleni oedd hi, a minnau wedi mynd â'r wraig a'r torllwyth plantos bach annwyl acw am sbîn yn yr hen Shandri ac wedi anelu trwyn yr hen fodur, cyfaill gorau dyn, er ei fod yn colli oel yn enbyd, tua un o'r manau poblogaidd hynny yng Ngwynedd. 'Roedd hi'n hanner dydd, a llewod yn rhoi ym moliau pob un ohonom, a dyna fynd i fwyty. Rargian sôn am godi prisiau dros dymor yr haf. Pate a bara cras yn £3.50. Crogbris ynte. Ystyriwch am ennyd faint yw pris pate, a thorth yn Leos, neu Safeway ac yn Kwiks. Bobol bach, mynd ati'n fwiadol i gymryd mantais yw peth fel hyn. Twyll rhonc fy mhobol i. Yr union beth sy' wrth fodd calon Siôn Bwl, a'r Saeson wrth geisio ymgreinio am bob ceiniog goch ulw a gor-elw, o werthu crwyn gwyfynod wedi marw dan lampau strydoedd i giachu eliffant a adawyd ar ganol lonydd wedi i'r syrcau flynyddol deithio drwy ein pentrefi. Rhai garw am wneud-elw-o-bopeth yw'r Hil Horsiaid. Y drwg ydy bod nifer o Gymry yn ceisio'u hefelychu ac wedi mynd i fyw 'run fach â hwynt, ar dwyll a hwyrjo stwff-wishi-washi ar yr hen genedl hon, y genedl a ddylanwadwyd a'i tholcio cymynt gan yr arall-ddyn. Dweud yr ydw'i fod 'na ddiwedd i bopeth, fod 'na derfyn i bob rhaff. Cymryd mantais ohonom fel cenedl? Ie'n sicr, a ninnau yn ddigon cibddall wirion i blygu glin i'r dylanwadau estronol.

Am weddill fy naw wnos o wyliau haf bûm yn stelcian a llercian o gwmpas cownter mewn siopau, bwytai a thafarndai Gwynedd. O! y fath ergyd syfrdanol a gefais i. Codi pris o £1.60 am beint o lagyr — peint cyfan, meddyliwch — tra y mae hanner peint o'r un stwff melyn-syber-brwysg yn costio 90c. Ie'n lle bod yn 80c, codir 10c yn fwy amdano. Twt, wedi methu y mae'r tafarnwr meddwn innau yn hollol foddog (mi roedd o'n gythraul o ddau hanner da ta beth), a dyna fentro i lawr y lôn i dafarn arall blr roedd peint o'r un lagyr yn £1.40 a hanner peint os gwelwch chwi'n dda yn 75c, sef 5c yn ddrutach.

'Pam rydach chi'n twyllo pobol?' meddwn i wrth y tafarnwr.

'What?' meddai meinaps â ffrith yn wyn fel eira o gwmpas ei hen

gyrnol-Major o'i fwtash o.

'Iw'r lagyr mêt. Feli siep byt preisys not reit ies.'

'More difficult to wash a smaller glas to be sure. The liability-breakage and so forth. Most people any roads drink pints. Much more preferably.'

Ddallais i'r gair ddwedodd o, ond mi roeddwn i'n amau mai rêl Sionyn-lygad-y-geiniol oedd o. A dyna fynd adra. Y wraig yn cael sterics — wedi hel cwpons oddi ar paced grefi neu sbeis, ac yn dal i ddisgwyl ers dros y flwyddyn am y rhodd, sef tair soser a chwpan blastig wedi'u creu yn Hong Kong, a dim byd — bygar ôl — wedi dod iddi. Byd o dwyllo? Dyna fo i'r dim. A neb mwy na'r Ceidwadwyr un-lygadog i arwain y gad, i'n dysgu ni'r werin bobol am bob tric ac ystryw. Wrth ymgyfoethogi rydym yn mynd yn fwy cyfoethog rydym yn gweld fod hi'n bosib tlodi eraill. Ni ydy'r ffyliaid welwch chwi, ni ydy'r penweiniaid sy'n cael ein twyllo bob gafaél. Twt, twt, mae'n hen bryd inni gallio, a bod ni ein hunain — Cymry gonast a dim byd arall.

PYSGOTWYR BRO

O Nant y rhed yr afon
I lawr i gei y dre,
Lle bydd yr hogia yno
Yn llonydd, gyda'i gêr.

Agorwyd felin Crawia
Deorfa pysgod llwyd,
A'i bwydo wnaeth yr hogia
A ddellid yn ei rhwyd.

Wrth edrych ar yr afon
A'i cherrig glas a mawr,
A'r coed sy'n gysgod iddi
Ar lannau ddaear fawr.

Fe chwiban yr hen wialen
A phluen ar ei blaen,
A'r pysgod sydd yn gwibian
Yn nofio, nôl a mlaen.

Wrth roi y bluen liwgar
Fel lliw y pryfed glân,
Ag ambell i hen gynrhonyn
A phlu yr adar mân.

Cawn lawer iawn o bleser
Wrth daflu lein i'r dŵr,
Gan obaith daw 'na 'sgodyn
Neu samwn, ddigon siwr.

Hei lwc i chwi ein hogia
I fenter 'sgotwyr bro,
A hwylio ar Lyn Padarn
A'r pysgod wrth y gro.

W. H. WILLIAMS, Arfyn, Llanrug.

'MERICA

Mae tymor y gwyliau trosodd i'r mwyafrif ohonoch bellach, a deallaf i amryw o fro'r Eco groesi'r Iwerydd eleni a mentro i wlad Yncl Sam.

'Roedd 'Merica yn bell ers talwm — yn bell iawn, ond heddiw mae'n bosib, drwy addasu i drefn amser, i chi gael brecwast ym Manceinion a chinio yn Efrog Newydd.

Na, tydi 'Merica ddim yn bell heddiw.

Y prif atyniad i deuluoedd yn sicr yw teyrnas ryfedd Disney — a bydd amryw yn gofyn i mi p'run yw'r orau — *Disney Land* 'ta *Disney World*?

O safbwynt paradwys i blant does 'na fawr o wahaniaeth. Mae popeth yma ar eu cyfer a phrofiad bythgofiadwy i unrhyw blentyn fydd cael treulio diwrnod neu ddau yn nheyrnas Disney. Cofiwch mae'r tâl mynediad yn eitha' costus ond mae'r rhan fwyaf o'r pleserau yn rhad ac am ddim. Yr unig anfantais ydy — rhaid ciwio am hir i gael mynd ar rai pethau. Ond fe gaiff y plant y cyfle i ysgwyd llaw ac i gael tynnu eu lluniau gyda chymeriadau mor enwog â Mickey Mouse a Donald Duck.

Ydy, mae'r ddau barc adloniant yn werth i ymweld â hwy, ac addysg yn ogystal â phleser fydd i unrhyw blentyn gael y fraint o ymweld a'r parciau pleser hyn.

Mae'r ochr ddwyreiniol (Orlando fel canolfan) yn nes atom ni, ac i mi (sy'n anffodus wedi gorfod rhoi heibio i bethau bachgennaidd bellach) yn fwy deniadol. Yma, mae Epcot, lle cewch gyfle i gael cip ar ryfeddodau prif wledydd y byd. Oes, mae gan Gymru gongl fechan yma hefyd. Mae 'Sea World' wrth ymyl, lle cewch gyfle i weld 'Shamie' y siarc yn mynd trwy'i drciau. Beth am droi i mewn i Erddi Cypress, lle mae yna dros naw mil o flodau a phlanhigion prin?

Hawdd iawn ydy mynd o Orlando i Cape Canaveral, ac efallai y byddwch yn ddigon lwcus i weld roced yn cychwyn ar ei thaith i'r gofod. Yma, yn Florida, cewch gyfle i ymweld â Miami a'r Everglades, ac os carech ychydig seibiant o sŵn prysurdeb y byd beth am fynd ar fordaith fer i ynysodd y Caribi?

Beth am ryfeddodau'r Gorllewin? California. Os am fwynhau golygfeydd yn ogystal ag adloniant — wel codwch docyn awyren i Los Angeles. Yma fe gewch holl bleserau 'Disneyland', a chyfle i grwydro o gwmpas stiwdios a strydoedd Hollywood a Beverley Hills. Wrth gwrs o fynd i'r rhan yma o'r byd rhaid fydd ymweld â Las Vegas, a cheisio gwneud eich ffortiwn ym mharadwys y gamblwyr! Bu fy ngwraig yn ddynes gyfoethog iawn yma am tua dwy awr, pan fu'r peiriant un fraich mor garedig a chwydu o'i berfeddion lond pwced o arian iddi. Ond roedd y demtasiwn yn

rhy gry', ac fe lithrodd y 'ffortiwn' i gyd yn ôl rhwng gwefusau main y peiriant un fraich cyn diwedd y noson.

Fedrwch chi ddim ymweld â'r rhan ykma o'r America heb fynd i weld un o ryfeddodau mwya'r cread — y Grand Canyon. Magwch ddigon o blwc a mentrwch hedfan dros y dyfnder mewn un o'r awyrenau ysgafn — anghofiwch chi byth mo'r profiad. O'r holl lefydd yn y byd 'ma yr ydan ni wedi ymweld â nhw — dyma'r unig le i mi weld Myra yn gollwng dagrau. Na, nid am fod arni ofn, nid am iddi golli ffortiwn yn Las Vegas — ond am fod yr olygfa anhygoel wedi ei syfrdanu hi gymaint.

Un bonws arall a ddaw i'ch rhan o deithio California ydy'r cyfle a gewch chi i dreulio rhai dyddiau yn ninas San Francisco. O holl ddinasoedd y byd dyma o bosib fy ffeffryn. Fyddai byth yn blino treulio ychydig o ddyddiau yn San Francisco. Mae reid ar y tram yn brofiad arbennig. Mae prysurdeb 'Fisherman's Wharf' yn sicr o'ch syfrdanu, ac efallai y byddwch yn awyddus i dreulio ychydig oriau yng ngharchar ynysig enwog Al Catraz.

Peidiwch â phonei gormod am ddaeargryn tra byddwch yn San Francisco. Ma' nhw'n dal i ddisgwyl un fawr yno unrhyw ddydd — ond 'does 'na neb i'w weld yn pryderu am y peth.

Eich ymateb ar ôl dod adre o'r America fydd — gwyliau gwyh, gormod o fwyd, a thywydd braf — o bosib anioddefol o boeth ar brydiau, ond profiad a erys ar eich cof am byth.

Oes gennych chi ddiddordeb mewn gwyliau cwblwahanol i'r uchod? Taith ddeng niwrnod i Begwn y Gogledd! Y gost? Deng mil o bunnau — mil o bunnoedd y dydd! Na, dydw i ddim yn mynd ond os oes diddordeb gennych mi alla' i anfon y manylion llawn ichi. Profiad bythgofiadwy yn sicr — a chwblwahanol i Florida neu California.

SELWYN

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Theatr Bara Caws 'Y Gweledigaethu'

Cofiwch am y perfformiad diweddaraf yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Fercher, Hydref 2 am 7.30. Tocynnau ar gael gan Nan Humphreys, Caernarfon 5668.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Clwb Cant Ysgol Dolbadarn:
1/7/91: 1, £25, Mrs Diana Pritchard, 11 Ceunant Street (8); 2, £15, Mrs Non W. Evans, Cynlas, Stryd Fawr (121); 3, £10, Mr Danny Roberts, Y Bistro (14).

1/8/91: 1, £35, Mrs Heulwen Edwards, Stryd Fawr (159); 2, £20, Mrs Iona W. Williams, Y Grugan, Lôn Groes, Llanrug (103); 3, £15, Catrin Pepper, Taliesin, 1 Preswylfa (17); 4, £10, Mrs Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug (71); 5, £5, Mrs Dilys Roberts, Arlys, Stryd y Ffynnon. 'Snowball' £50: Mrs Eileen Roberts, 83 Maes Padarn (56).
1/9/91: 1, £35, Delyth Wyn Roberts, 50 Maes Padarn (70); 2, £20, Mair Jones, 39 Maes Padarn (128); 3, £15, Mrs Gwyneth Ll. Roberts, Merddyn Coch (109); 4, £10, Mrs Yvonne Roberts, Bethesda Street (140); 5, £5, Mrs Maxine Roberts, Birmingham House.

Cymdeithas Eglwys Sant Padarn a Sant Peris: Daeth blwyddyn lwyddiannus iawn i ben yn y gymdeithas gyda ymweliad â Chanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Mwynhaodd pawb sgwrs arbennig o ddiddorol am hanes y Nant a thaith o gwmpas y Ganolfan, gyda Mr Gareth Jâms. I ddiweddu'r noson cafwyd gwledd ardderchog yn y Plasdy, cyn cael ein cludo i'r copa, a'n taith adref. Diolchodd Mr Gordon Owen i'r trefnwyr ac i bawb am eu presenoldeb ac am y swper arbennig a gafwyd. Noson i'w chofio yn bendant, ac roedd llawer o ddiddordeb am ymweliad eto yn fuan.

Etholwyd Anne Parry Jones yn llywydd, Olwena Morris yn ysgrifennydd ac Evelyn Williams yn drysorydd am y flwyddyn 1991-92.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn, a'r holl ddiddordeb a brwdfrydedd ddangoswyd a'r gefnogaeth a roddwyd iddynt gan bob aelod o'r gymdeithas. Croeso i aelodau newydd.

Llongyfarchiadau i Mr Gwilym Wyn Roberts, mab Mr a Mrs W. T. Roberts, 15 Maes Padarn, Llanberis, ar ei swydd fel pennaeth adran Seiciatrig ac uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Brunel, Llundain.

Diolchiadau:

Dymuna Jean, 13 Ffordd Goodman, ddiolch o galon i'w theulu, ei chyfeillion, Undeb y

Mamau, Clwb y Mamau ac i'r Guild, a'r pentrefwyr am y caredigrwydd a ddangoswyd iddi ar ôl ei damwain. Diolch yn fawf iawn i bawb.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Annie Griffiths (Nan), 47 Maes Padarn, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant yn ystod eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer annwyl.

Dymuna Mrs Mary W. Thomas, Flat 6, Birmingham House, Llanberis, ddiolch i staff ward Gwynedd, Ysbyty Dewi Sant, a holl ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a rhoddion a dderbyniodd tra roedd yno yn derbyn llawdriniaeth.

Dymuna Catrin a Christine, 34 Maes Padarn, ddiolch i bawb am y cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab Cai.

Dymuna Chris a Gerwyn, 9 Ffordd Tŷ Du, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach Angharad.

Llongyfarchiadau i Alun Vaughan am dorri'r record yn Ras yr Wyddfa i rai dan 14 oed. Dal ati Alun.

Sgowtiaid Arfon: Mae yna ofnau dybryd y bydd rhai adrannau o fudiad y sgowtiaid yn peidio a bod o achos prinder o oedolion i ysgwyddo'r baich i gynorthwyo ac i arwain. Mae anghenion ar frys mewn ardaloedd fel Llanberis a rhai adrannau o'r mudiad ym Mangor a Chaernarfon.

Mae'r sefyllfa yn Llanberis yn argyfyngus lle mae angen arweinwyr Cymraeg eu hiaith. Buasai yr Arolygwr Griffiths yn Swyddfa'r Heddlu, Bangor, sydd hefyd yn gomisiynydd gyda'r mudiad, yn falch o glywed gan unrhyw un ag amser i'w roi i hyrwyddo'r mudiad ac yn enwedig gan Gymro Cymraeg i sicrhau fod y bechgyn Cymraeg eu hiaith yn cael mwynhad llawn o'r gweithgareddau.

Apeliwn am eich cydweithrediad a gofynnir i chwi gysylltu ac un o'r canlynol — i arwain y 'Beavers' (6-8 oed): Debbie Horgan, Caernarfon 672373; i arwain y 'Cybiaid' (8-10½ oed): Pat Turner, Llanberis 870508; i arwain y 'Sgowtiaid' (10½-15½ oed): Mike Atkins, Llanberis 871467. **Cydymdeimlir** â Mrs Morris Jones (gynt o Lanberis) a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli merch, Mrs Mari Jones gynt o 4 Dôl Elidir, yn ddiweddar.



Plant Ysgol Feithrin Llanberis gyda rhai o'r offer a brynwyd gyda'r arian a gafwyd gan Bwyllgor Carnifal Llanberis 1991.

Dr Dewi Madoc-Jones PhD, FInstPh, FIWEM, FGWC

Bu farw Dewi yn sydyn, tra ar ei wyliau yn Ne Ffrainc, ar y 5ed o Fehefin. Yr oedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Llew Madoc Jones, Ffordd Capel Coch, Llanberis, a chynbrifathro Ysgol Dolbadarn.

Mae yn gadael gwraig, Claude, a dau fab — Pascal a Didier. hefyd ei frawd Gruffydd, sydd yn brifathro yn Torquay.

Disgybl yn Ysgol Brynrefail oedd Dewi, ac wedyn aeth i Goleg y Brifysgol ym Mangor lle y derbyniodd ei Ph.D. Bu yn gweithio efo ICI am 28 o flynyddoed ym Mhontypŵl ac wedyn yn Harrogate. Yn ystod y blynyddoed diwethaf bu'n gweithio gyda'r 'Water Research Centre' yn Swindon hyd ei ymddeoliad ar ddiwedd Gorffennaf 1990. Treuliodd ei ddwy flynedd olaf ar ran y cwmni yn Philadelphia, USA.

Cafodd driniaeth lawfeddygol ar ei galon yn Llundain ddechrau'r



flwyddyn.

Bu ei angladd yn Amlogfa Swindon ar 18fed o Fehefin a chymerwyd y gwasanaeth gan ei gefnder, y Parch Llew Madoc Jones o Ben-y-groes. Daethpwyd a'i lwch yn ôl i Wynedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu, ac hefyd a theulu Bron Wyddfa, Nant Peris.

Codi Cwestiwn

Bob nos Wener, rhwng 8.55 p.m. a 9.45 p.m., o ganol mis Hydref hyd y 'Dolig bydd ail gyfres o 'Codi Cwestiwn' yn cael ei darlledu'n fyw ar S4C. Ffilmiau Elidir o Gaerdydd yw'r cwmni cynhyrchu ac Emlyn Davies yw golygydd y gyfres.

Fe fu'r gyfres gyntaf yn un hynod o boblogaidd ac fe fydd uned Barcud a chriw cynhyrchu Ffilmiau Elidir yn ymweld â deg canolfan led-led Cymru yn cynnwys Stiwdio Barcud, Caernarfon, ar Dachwedd 1.

Os ydych am ofyn cwestiwn neu am docynnau rhad ac am ddim cysyllter â Pennawd, Penhendre, Trefor, Gwynedd. Ffôn: (0286) 86811. Ffacs: (0286) 86845.

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.

Diolchiadau:

Dymuna David Ellis ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Arthur a Jennie Williams, Pennant, ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a chyfeillion, am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur datlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cotractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Priodas: Ddydd Sadwrn, Awst 17, yng nghapel Bethel priodwyd Helen Wyn, merch Mr a Mrs Gwynndaf Williams, Llyfnwy, 1 Tan y Cae, Bethel, â Stephen, mab Mr a Mrs David V. Hasll, Talysarn. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchedig Gwynfor Williams a'r organyddes oedd Mrs Beti Owen. Cyflwynwyd y briodferch gan ei thad a'r gwas oedd Mr Eifion Williams, cyfaill y priodfab. Y prif forynion oedd Miss Iona Williams (chwaer y briodferch) a Miss Alison Hall (chwaer y priodfab), y morynion bach oedd Kelly Wyn a Leah Ann (nithoedd y briodferch) a'r macwy oedd Mathew (cefnder y briodferch). Yr ystlyswyr oedd Mr Meirion Williams (brawd y briodferch) a Mr Ian Owen (cefnder y priodfab). Addurnwyd y capel yn chelfydd gan Mrs Edwina Morris.

Gwisgai'r briodferch ffrog laes o sidan meddal gyda bodis wedi'i addurno â lês a secwinau a pherlau. Gwisgai fêl laes gyda blodau silc yn ei gwallt a chariai dusw o flodau ffres o rosod, gypsoffelia a thegeirianau. Gwisgai'r morynion ffrogiau llaes lliw lelog o sidan meddal ac 'roedd y morynion bychain mewn ffrogiau gwynion gyda gwregysau lliw lelog a'r macwy mewn siwt wen a gwregys lliw lelog.

Cynhaliwyd y wledd briodas ym Mhlas Gwyn, Cricieth. Mam y briodferch a wnaeth y deisen ac fe'i haddurnwyd gan Mrs Elma Jones, Cremlyn, Bethel. Treuliwyd y mis mêl ar Ynys Crete a bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn Nhalysarn.

'Roedd y briodas hon yn achlysur go arbennig mewn sawl ystyr. Cyfarfu Helen a Stephen union ddwy flynedd i'r diwrnod ac 'roedd hefyd yn digwydd bod yn ddiwrnod penblwydd mam Helen. Hon oedd y ganfed briodas i'r Parchedig Ronald Wyn Roberts ei gweinyddu a hefyd yr olaf un iddo cyn symud i ofalaeth newydd yn Nyffryn Clwyd. Cyn y briodas, hefyd, gwnaethpwyd gwaith atgyweirio a chynnal a chadw pur sylweddol ar y capel, gan gynnwys mwy o waith nag a dybiwyd oherwydd y pydredd sych a ddarganfuwyd. Bu'r capel ar gau yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni'r gwaith a chael a chael fu hi i'w gael yn barod mewn pryd i'r briodas. Dymuna rhieni Helen fynegi eu



diolchiadau i swyddogion ac aelodau'r capel am eu gwaith diflino yn glanhau a pharatoi mor effeithlon fel ag i greu llwyfan mor berffaith i'r briodas.

Dymuna Helen a Stephen ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob cymwynas a chymorth wrth baratoi ar gyfer y briodas yn ogystal ag am y cardiau a'r anrhegion lu a dderbyniasant ar yr achlysur arbennig hwn.

Priodas:



Susan Bailey, Anthorn, Bethel, a Dewi Jones, 56 Llwyn Beuno, Bontnewydd, ar ôl eu priodas yng Nghapel y Cysegr yn ddiweddar.

Llun: Islwyn Jones, Llanrug

Llongyfarchiadau i Caryl Owen ar ei llwyddiant mewn arholiadau cerddorol yn ddiweddar. Llwyddodd Caryl ar raddfa 1 ar y ffliwt a gradd 3 ar y piano. Mrs Ilyd Jones, Rhos Isaf, sydd yn rhoi gwersi piano i Caryl.

Eisteddfod Bethel: Oherwydd y gwaith ail-adeiladu sydd yn digwydd yn y Neuadd ni fydd yn bosibl cynnal yr Eisteddfod arferol eleni, ond i gadw'r Eisteddfod yn fyw penderfynwyd mewn pwyllgor nos Fawrth, 18 Medi, y dylid trefnu Eisteddfod Ffynnal a Leuencid yn unig i'w chynnal yn Y Cysegr ar nos Wener, Tachwedd 29.

Clwb Bro Rhos: Bydd tymor eleni yn agor gyda noson yng ngofal y Parchedig John Gillibrand, Caernarfon (Dysgwr y Flwyddyn 1990). Cynhelir y cyfarfod yn yr Ysgol, nos Lun, Hydref 14 am 7.30. Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau hen a newydd.



Clwb Pêl-droed dan 12: Eleni mae tîm pêl-droed dan 12 yng ngofal Mr Dafydd Jones, Llanddeiniolen, wedi ymuno a Chynghrair Gwyrfa. Er nad

yw'r tîm wedi ennill gêm hyd yma maent wedi chwarae yn dda ac yn dangos addewid. Dymunir yn dda i'r tîm yn ystod y tymor.

Gwynedd yn Holi Barn

Fel cam cyntaf eu hymateb i ddogfen Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar strwythur Llywodraeth Leol yng Nghymru mae Cyngor Sir Gwynedd yn ysgrifennu at dros fil o unigolion, cymdeithasau a mudiadau yn y Sir yn dwyn sylw at bwysigrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol.

Medd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd G. Alun Williams, yn ei ragymadrodd i'r ddogfen: 'Mae ansawdd yr addysg a gaiff ein plant a'r gofal a roddir gan ein gwasanaethau cymdeithasol yn hanfodol i wead ein cymdeithas. Mewn byd cystadleuol mae ein hymdrechion i ddenu cyflogaeth i'r Sir yn sylfaenol i ddyfodol llewyrchus.'

Awgrymir 3 amcan sylfaenol ar gyfer unrhyw ad-drefnu, sef:

- ★ Gwella ansawdd ac ymatebolrwydd gwasanaethau cyhoeddus;
- ★ Cryfhau democratiaeth ac atebolrwydd lleol;
- ★ Cynyddu effeithiolrwydd a chost-effeithioldeb llywodraeth leol.

Dywedir mai'r ffordd orau i weithredu'r amcanion hyn yw 'creu un cyngor aml-bwrpas i Wynedd gyfan gan gryfhau ac ehangu rôl y cynghorau cymuned'. Byddai rhannu Gwynedd yn nifer o gynghorau aml-bwrpas llai yn gostwng ansawdd gwasanaethau, yn peryglu democratiaeth leol ac yn llai cost effeithiol.

Caiff y ddogfen, sy'n codi nifer o 'bwyntiau trafod', ei hanfon at unigolion ym myd gwleidyddiaeth,

busnes, masnach a diwydiant, grwpiau proffesiynol, mudiadau ymgyrchu, arweinwyr undebau, arweinwyr crefyddol, cyrff cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol.


Medd Cadeirydd Gwynedd: 'Bydd copïau ar gael i'r cyhoedd ymhob llyfrgell yn y sir ac i staff y Cyngor Sir ymhob man gwaith'.

Ychwanega: 'Mae yna benderfyniadau tyngedfenol i ansawdd bywyd pob Gwynedd i'w ansawdd yn y misoedd nesaf. Bwriedir i'r ddogfen hon ysgogi trafodaeth ac edrychaf ymlaen at dderbyn sylwadau pobl Gwynedd fel y gallwn gyda'n gilydd lunio ymateb cytbwys a fydd yn gymorth i arwain yr Ysgrifennydd Gwladol at yr ateb gorau'.

Clwb Eryri

Bydd tymor newydd Clwb Eryri yn cychwyn nos Wener, Hydref 4, yng ngwesty'r Gwynedd, Llanberis, pan y ceir sgwrs gan Lywydd y tymor, Mr Selyf Hughes, Llanberis, gyda'r Parchedig Gwynfor Williams yn llywydd y noson. Ysgrifennydd newydd y Clwb yw Mr Ifor Glyn Ifans, Deinolen, sydd yn olynnu Mr Rol Williams, Waunfawr, sydd wedi ymdeol ar ôl 36 o flwyddoedd. Ef hefyd a fu'n gyfrifol am sefydlu'r Clwb ym 1955. Cyflwynwyd sic i Mr Williams yn ystod y wibdaith flynyddol ar ran yr aelodau gan Mr Ieuan Ellis Jones, y trysorydd. Swyddogion eraill y Clwb yw Islwydd: y Parch Gwynfor Williams; Bardd y Clwb: Mr Iolo Huws Roberts a'r Cofnodydd: Mr John Hugh Hughes.

ENNILL YN SIOE GOGLEDD CYMRU



Eirlys Williams a Glenys Griffiths a enillodd ddau gwpan yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru am waith coginio.

CHIROPDIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

FIDEO
FIDEO
FIDEO

Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol

JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

Ymddeoliad

Dymuniadau gorau i Richard Morris (Dic Huw i unrhyw un sy'n gwybod unrhyw beth am Hogia'r Wyddfa) ar ei ymddeoliad diweddar. Er nad yw'n byw yn ardal yr Eco mae Dic yn un o'r bobl hynny sydd wedi ei fabwysiadu gan ei thrigolion. Mae wedi cyfrannu llawer i'r fro ac fel aelod o Hogia'r Wyddfa, roedd bob amser yn barod ei gymwynas at achosion da.

Dymuniadau gorau hefyd i'w briod Edwina ar ei hymddeoliad hithau o Ysgol Cae Top, Bangor.

Dyma fel y cyfarchwyd Dic gan un o'i gyd-athrawon ar ran staff Ysgol yr Hendre, Caernarfon, ddiwedd y tymor diwethaf.

I DIC AR EI YMDDEOLIAD

Fe ddaeth yn ddiwedd tymor
O'r diwedd i bob un
Cawn saib o waith thematig,
Gwneud syms, a thynnu llun.
Chwe wythnos braf o wyliau llon,
A phawb ymhell o'r ysgol hon . .

Ond pan ddêl awel Medi
I chwifio uwch ein pen
Dychwelyd yn ddi-oedi
A wnawn i'r 'seithfed nen'!!
Ond ni fydd raid i un o'r criw
Ymroi i waith bob dydd yn driw.

Cans dweud ffarwél yn hapus
Wna Dic yr wythnos hon.
Ta-ta i gloc Yr Hendre,
Caiff godi llaw yn llon!
A hwylio'n braf o ddydd i ddydd
A dewis byw fel 'deryn rhydd.

Bydd chwith i'r ysgol gyfan
'Rôl dyn 'tw-whit, tw-hw'
Ond erys co'r dylluan
Wrth biano'r staff dwi'n siwr.
A melyn gofio gan y plant
Am ddyn y 'Bib' yn tarro tant.

Fe gollwn ninnau hefyd
Un ffraeth a hwyliog iawn.
O'i gongl hoffai gellwair
Bob bore a phrynhawn;
A phan edrychem ninnau'n syn
Fe lwyddai Dic roi haul ar fryn.

Sibryddodd 'deryn wrthlyf
Fod Dic am fynd ar daith —
Ymhell o dref Caernarfon,
Dros fôr a thir y paith.
'Rhaidd gweld Hong Kong,'
medd Mr Lee,
'Dewch draw eich dau i'n gwlad
fach ni.'

Cewch fflat, a chroeso cynnes,
Gan ddyn y 'take away',
Llund bol o reis a chyri,
A fish a chips mewn tray,
A dod yn ôl 'rôl gweld y byd
Yn llawn hanesion i ni gyd.

Hwyl fawr a phob hapusrwydd
Cawn ysgwyd llaw yn dynn.
Peth braf yw cyfeillgarwch;
Rhaidd cadw'r lamp ynghynn.
A boed i chwi a'ch priod fod
Yn ddedydd iawn wrth droedio'r
rhod.

ANWEN HUGHES

DRAENOG



Fe wyddoch am yr hysbyseb arbennig hwnnw ble mae merch yn gadael ei chartref yn y bore a'i sgert wedi bachu yn uchel uwch ei phen-ôl? Dim ond mewn hysbysebion y byddai hynny'n debygol o ddigwydd ynte? Wel, naci, yn ôl dwy o wragedd Llanrug. Chlywsoch chi ddim? Welsoch chi ddim?

Aeth un i'r lle crandia posib — y Seiont Llwyn y Brain Manor Hotel — i ddangos mai Knickerbocker Glory fasa hi wedi licio'i gael yn bwdin.

Cerddodd y llall yn dalog ar hyd y pentra i'r capel, a mynnu mynd i'r sêd flaen i eistedd. Hyd y gwn i does dim gwir yn y ffaith i'r pregethwr droi at y gynulleidfa a gofyn, 'Pa le, pa fodd dechreuaf . . .?'

Tocynnau Eisteddfod Ceredigion Aberystwyth, 1992

Mae tocynnau Eisteddfod Genedlaethol 1992 yn awr ar gael yn siop yr Eisteddfod (6 Y Stryd Fawr, Aberystwyth) ac mae yna eisoes alw mawr amdanynt. Tocynnau'r wythnos yn unig sydd ar werth hyd yn hyn ond mae'r rhain yn cynnwys tocynnau gŵyl (dydd a hwyr am £72), tocynnau dydd yn unig (£45) a thocynnau nos (£38).

Yn wahanol i'r arfer, seddau un dosbarth yn unig fydd i weithgareddau'r pafiliwn yn ystod y dydd ond ar gyfer cyngherddau'r nos yn y pafiliwn mae modd archebu seddau dosbarth 1 a 2.

Bydd yna newidiadau yn sustem tocynnau mynediad i'r maes yn 1992 hefyd. Ni chodir tâl am barcio yn yr Eisteddfod a bydd tocyn mynediad i'r maes yn caniatau mynediad i adrannau arbennig o'r pafiliwn hefyd. Y pris fydd £5 y dydd. Yn ogystal, am bob tocyn pris llawn a brynir rhoddir tocyn teulu am ddim ar gyfer plentyn oedran cynradd. Ar gyfer y pensiynwyr, plant a phobl ifanc dan 21 oed a'r di-waith bydd tocyn consesiwn yn sicrhau mynediad am hanner pris.

Am ragor o fanylion, cysyllter â Penri E. Roberts, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod, 6 Y Stryd Fawr, Aberystwyth, Dyfed.

Diolchgarwch yn yr Ardd

Aeth 'Medi, fis fy serch' heibio. 'Mis y porffor ar y ffriddoedd,' fel y canodd y bardd, a dyma hi'n Hydref — mis y cynhaeaf a chawn gyfle y mis hwn i ddatgan ein diolch. Yn wir y mae gennym ni'r garddwyr fwy o achos diolch na neb.

Rwy'n sôn yn aml am y llwyni blodau, yn enwedig y tri lliw ar ddeg (*hydrangea*). Y maent wedi bod yn hardd iawn eleni, gan eu bod yn hoff iawn o'r glaw — awgryma eu henw hynny. Geilw rhai nhw yn *goeden ddôr*. Yr oedd Awst a Medi yn amser da i gymryd torrion ohonynt, a mwyaf yn y byd sydd gennych yn yr ardd gorau'n y byd, gan eu bod mor lliwgar, a hefyd yn help i gadw chwyn i lawr, neu o'r golwg beth bynnag!

Cefais gyngor i beidio â thorri'r blodau ond eu gadael ar y coed, ond os torri, maent yn cadw yn y tŷ. Mae'n beth rhyfedd, ond os rhochwch damaid o un o'r rhain, fel y rhoddais i un las i ffrind i mi, yn ei gardd hi roedd yn lliw arall. Pam tybed? Rhaid fydd anfon gair at Clay Jones, yr arbenigwr.

Cefais hwyl dda ar dyfu mynawyd y bugail eleni, a rwyf wedi addo toriad i amryw. Rhaid bod yn ofalus neu byddaf heb ddim fy hun! Rhaid ei codi, os ydynt yn y pridd yn yr ardd, a dod a nhw mewn potiau dan do, rhag y rhew. Yn eu lle, plannu blodau'r fagwyr a bylbiau at y Gwanwyn.

Y mae'r ffarwel haf a'r blodau mihangel, a'r wialen aur ar eu gorau a'r seabious wedi blodeuo ers mis Mehefin hyd nes y daw'r rhew. Ffrindiau yn gofyn am damaid o hyd, ond na, fydd yr ateb — hyd y Gwanwyn. Os y gwnaf ymyrryd â'r gwreiddiau rŵan efallai y daw'r rhew a'u difetha. Gellir rhannu'r blodau parhaol eraill yn ystod y mis yma, y mae'n cael ei gyfri yn amser da.

Bydd y blodau mihangel mewn potiau yn dod i'r tŷ rhag gwyntoedd, a gobeithio y bydd yna sioe dda o hyn hyd y Nadolig.

Rwy'n hoff iawn o sôn am erddi pobol eraill. Cefais wahoddiad, ym mis Awst, i dreulio wythnos ym Mhowys, paradwys Cymru. Mae gan nith i mi hen dŷ fferm i fynny yn y cwm tu draw i Lanbrynmair. Mae'r

clefyd garddio wedi gafael ynddi hithau hefyd, er na chymeraid ddiddordeb hyd nes y cafodd ardd ei hun. Pan welais y lle gyntaf roeddwn yn anobeithiol a dywedais wrthi, 'Fedri di byth wneud gardd i fyny yn fan yma, mae hi'n rhy uchel i fyny, ac yn oer'. Ond gardd hyfryd sydd yno erbyn hyn.

Mae waliau digon cyffredin wedi eu gorchuddio â choed dringo — amryw fathau o *clematis*, un o'r *montana*, sy'n bur adnabyddus ac yn cyrraedd i fyny at ffenestr y llofft. Druan ohonof fi pe bai raid i mi ei thorri i lawr. Mae yno'r *wisteria* a'r *gwyddfid pêr*, a choeden *rhodod* dringo hen ffasiwn. Mae'n rhyfeddol y fath wahaniaeth mae'n holl llwyni yma wedi ei wneud i'r tŷ. Ond ar y ddaear hefyd, y mae pob math o blanhigion parhaol sydd yn gorchuddio (*ground cover*) ac yn cadw'r chwyn i lawr, ac yn ôl y ffasiwn heddiw potiau di-ri gyda *mynawyd y bugail*, a blodau blynyddol fely *petunia* a'r *caru'n ofer*.

Bron na allwn ddweud fel Cynan:

Gardd o flodau ydi honno —
Gardd o flodau teca'r byd.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

Llongyfarchiadau i Trystan a Sioned Larsen, Bod Afon, ar enedigaeth eu mab Osian Llwyd ar Awst 17, brawd i Elgan Llwyd.

Gwellhad buan i Mrs Jones, Hafodol, sydd ar hyn o bryd yn y Cartref ym Mhenisarlawn.

Llongyfarchiadau i Tony Storey, Awel y Mynydd, am ei lwyddiant yn yr arholiadau Cwrs B.Tec ac ennill Diploma H.N.D. mewn Cynllunio (cyfathrebu) yng Ngholeg Dewsbury.

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

Sgwrs am
Peter Bailey Williams
Rheithor Llanrug a Llanberis

gan Edgar W. Parry, Caernarfon
yn y Sefydliad Coffa, Llanrug

Nos Fercher, Hydref 23ain
am 7.00 o'r gloch

Croeso cynnes i hen aelodau,
aelodau newydd a phawb sy'n
ymddiddori yn hanes y fro.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth
STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID
PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259



Priodas: Priodwyd Miss Julie Parry, Waterloo Port, Caernarfon, a Mr Gwyn Jones, 9 Maes Gwylfa, Deiniolen, yng Nghapel Ebenezer, Caernarfon, ar y 13eg o Orffennaf.

Diolch: Dymuna Gwyn a Julie ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur eu priodas. Byddant yn ymgartrefu yn 17 Stryd Victoria, Caernarfon.

Llongyfarchiadau i Ian Peter Williams, B.Sc., 10 Rhes Marian, ar ei lwyddiant yn ei arholiadau yng Ngholeg Meddygol Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Cafodd ei addysg gynnar yn Ysgol Gwaun Gynfi ac yna Ysgol Brynrefail, Llanrug, lle roedd yn Brif Ddisgybl. Aeth ymlaen i Brifysgol Caerdydd a graddio gydag Anrhydedd mewn Microbioleg Meddygaeth (B.Sc.) cyn mynd ymlaen i Goleg Meddygol Prifysgol Cymru. Mae bellach wedi dechrau ei yrfa fel meddyg yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Dymuna Ian ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Diolch yn fawr i bawb.

Diolch: Dymuna John ac Eileen, 16 Rhydfadog (Bwlch gynt), ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, rhoddion, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar ddathlu eu priodas Ruddem. Diolch i Trebor a Rhian am drefnu y trip mewn awyren, a'r wledd annisgwyl a gawsom hefyd. Diolch i'n holl gyfeillion a ymunodd â ni yn y dathlu a'i wneud yn ddiwrnod i'w gofio.

Diolch hefyd i Rhinedd am wneud a rhoi y deisen. Llauer o ddiolch i bawb.

Dymuna Elisabeth E. Griffith, 2 Tai Caradog, ddiolch o galon i bawb am yr holl ymweliadau, blodau, cardiau a llythyrau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref.

Dymuna Linda Jane Thomas, 5 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, am yr arian a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed

Plaid Cymru — Clwb Cant Mis Mehefin: £10 — Mrs Jacqueline Jones, Buarth Beran. £8.50 — Mrs Gwen Griffith, Y Fron.

Mis Gorffennaf: £10 — Mrs L.M. Lewis, Llys Annedd. £8.50 — Miss M. Jones, Swyddfa Arfon.

Mis Awst: £10 — Miss I.R. Jones, 18 Hafod Oleu. £8.50 — Miss Jean Parc Jones, Cesail y Mynydd.

Diolch: Dymuna teulu y ddiweddar Sarah Mary Griffiths, Fron Deg, Clwt y Bont, ddiolch yn fawr iawn i bawb am gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

Diolch hefyd am y rhoddion sydd am eu trosglwyddo i Gronfa Cymuned Nyrsio Cartref yn y clinic lleol er cof amdani.

Diolch: Gair bach i ddiolch trwy'r Eco i'n cyfeillion eraill am eu caredigrwydd tuag atom ar ôl colli Katie, hefyd diolch am yr holl gardiau a llythyrau. Trosglwyddwyd yr arian i Dr Korn, at Haematoleg ac Ymchwil Cancer yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn. Dei, Tydfil, a'r holl deulu.

Diolch: Dymuna Mrs Gwladys Jones, Iris a Gwyneth, 18 Hafod Oleu, Deiniolen, ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli priod, tad, a thaid annwyl, Idwal Jones.

Diolch i'r Parch. Ifor Ll. Williams ar gweinidogion eraill am eu gwasanaeth, Mrs Eirian Roberts, yr organyddes, i'r gwasanaeth Ambiwllans, ac i Robert Williams, John Roberts, Mrs Edith Thomas, a Dennis Robert, Llanrug. Diolch hefyd am y rhoddion hael at Eglwys Libanus, Clwt y Bont, a Chlinig Deiniolen. Cafwyd cyfanswm o £600. Diolch i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis, am drefniadau trylwyr.

Diolch: Dymuna Mrs Glenys Roberts a'r teulu, 13 Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli gŵr, tad, a thaid annwyl iawn.

Diolch am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd tuag at yr Uned Gofal Arbennig yn Ysbyty Gwynedd ac at Gronfa'r Ambiwllans. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mr a Mrs O.R. Williams (Dinorwig gynt), ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am eu holl caredigrwydd iddynt ar achlysur dathlu eu priodas euraidd.

Hefyd am eu hymweliadau ag O.R. yn y Cartref ym Mhenisarwaen.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, Medi 2, cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan. Cafwyd noson hwyliog dan ofal Miss Jean Moller a oedd wedi trefnu Cwis. Y ddwy enillydd gyda'r marciau uchaf oedd Mrs Marian Williams a Miss Eileen Williams ac enillwyd raffl y noson gan Mrs Beryl Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Hydref 8, am 7.30 p.m. pryd y disgwylir Mr Dafydd Orwig Jones, Bethesda. Bydd hefyd yn noson Moes a Phryn.



Dymuniadau gorau i Mr Elwyn Robinson, athro (dde); Mr Eifion Williams, gofalwr (chwith); a Mrs Olive Jones, gegin, ar eu hymddeoliad o Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, ar ddiwedd y tymor.

Diolch: Dymuna Eifion Williams, 39 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch i'r Prifathro, staff, plant a rhieni, Ysgol Feithrin, a staff y gegin, Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, a'r Rheolwyr, teulu a ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur ei ymddeoliad ar ôl deuddeg mlynedd fel gofalwr yr ysgol. Diolch yn fawr i bawb.

Yr Ysgol Feithrin: Cyfarfu aelodau'r pwyllgor cyn diwedd mis Gorffennaf, gyda Mr Gwyn Parri yn cadeirio'r cyfarfod. Croesawyd Mrs Beryl Griffith fel aelod o'r pwyllgor. Cynrychiola Mrs Griffith Ysgol Gwaun Gynfi ar y pwyllgor.

Cyn diwedd y tymor cafwyd cyfle i anrhegu Mr Eifion Williams, gofalwr Ysgol Gwaun Gynfi, a Mr Robinson. Bu'r ddau'n garedig iawn tuag at yr Ysgol Feithrin ar hyd y blynyddoedd.

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd mae'n braf gweld fod 24 o blant yn dechrau yn yr Ysgol Feithrin, gyda 20 yn cychwyn ar eu hail flwyddyn.

Cyn gwyliau'r haf gwelwyd gwaith y plant at 'Slot Meithrin' ar S4C. Felly, mae cryn brysurddeb yn yr Ysgol Feithrin, a diolchodd y cadeirydd i Mrs Val Williams, Mrs Siân Roberts, Mrs Elan Williams a Miss Nicola Parry am eu gwaith graenus gydol y flwyddyn.

Cydymdeimlo: Estynnir ein cydymdeimlad diffuant â theulu y ddiweddar Mrs Myfanwy Thomas, 4 Tai Marian, a fu farw ym mis Awst yn 92 mlwydd oed.

Diolch: Dymuna Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w chydweithwyr yn Ysgol Gwaun Gynfi a phawb a gyfranodd tuag at yr anrhegion ac am y cardiau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad. Diolch i bawb.

Undeb y Mamau: Mewn gwasanaeth arbennig yng nghyfarfod o'r gangen ar nos Fawrth, 3 Medi, sefydlwyd Mrs Eileen Hughes, 5 Rhes Victoria yn Aelod Cofrestru am y tair blynedd nesaf. Y siaradwraig yn y cyfarfod oedd Mrs Dorothy Atkins, Bangor. Nos Wener, 20 Medi, bu aelodau'r gangen ar wibdaith i ymweld â Chastell Gwydir ac Eglwys Sant Mair, Betws-y-Coed.

Gwella: Da clywed fod H.J. yn gwella ar ôl derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Y mae H.J. yn ysgrifennu yn rheolaidd i'r Eco. Daliwch ati a brysiwch wella.

Diolch

Pleser a dyletswydd yw cael diolch yn ddifffuant iawn i'm teulu prin a'm cyfeillion lu, am bob arwydd o gydymdeimlad â mi yn fy ngwaeledd diweddar, am eich ymweliadau yn Ysbyty Gwynedd a Phlas Pengwaith ac â'm cartref, am eich cardiau, galwadau ffôn a'ch rhoddion caredig. Diolch yn arbennig i'r brodyr am y danfon a'r cyrchu i'r ysbyty ac i Plas Pengwaith, ac am eu cymorth gwerthfawr ar ôl dod adref. — Hugh Jones, Rhes y Faenol.

PLAS PENGWAITH

Breuddwyd gŵr a gweledigaeth ddaeth yn ffaith
Dyna mewn gwirionedd yw hanes Plas Pengwaith
Gwerinol Gynghorwyr diwylliedig dewr eu bron
Orchfygodd sawl rhwystr er sicrhau i ni'r Noddfa hon.

Y mae'n Gartref mewn mwy nag un ystyr
Am dymor hir neu dymor byr, ni cheir rhwystr;
Cewch yma ofal tyner mewn awyrgylch gyfeillgar
Eich lles a'ch cysur yw nôd y merched hawddgar.

Rhaid i'r hen a'r unig gael gofal a chwmpelni ar eu taith —
Dyna pam r'wyf i yma ym Mhlas Pengwaith —
Gorsaf rhwng yr ysbyty a'm cartref yn Neiniolen,
Diolchgar ydwyf am y gofal a'r derbyniad llawen.

Amrywiol yw hanes a chyflwr tenantiaid y Plas;
Yn hen, methodig ac unig, a gwahanol eu tras;
All gartref tros dro i bawb ohonom yw Plas Pengwaith
Hyd derfyn sicr ein holaf daith.

HUGH JONES

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Eglwys St. Mair

Cydymdeimlo: Trist iawn oedd clywed yn ddiweddar am farwolaeth Mrs Annie Roberts, gynt o 3 Maes Eilian, ond a oedd wedi cartrefu yng Nghaernarfon dros y blynyddoedd diwethaf. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys a'i gŵr, Mr John Roberts, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Cofir am Mrs Roberts fel aelod ffyddlon a chydwybodol iawn o Eglwys St. Mair ac yr oedd yn uchel ei pharch gan bawb. Prin iawn yw ffyddloniaid o'r fath erbyn hyn.

Diolchiadau: Yr haf yma eto mae ein dyled yn fawr i Mr Robin Evans am sicrhau fod y gwaith o gwmpas yr eglwys yn cael ei dorri. Hefyd diolch i Mr E. Lyles am y gwaith plastro ac i bawb arall sydd yn gweithio mor dda i gynnal yr eglwys o Sul i Sul. **Gwellhad buan:** Dymunwn wellhad buan i Mrs J. Williams, ein organyddes, sydd ddim wedi bod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn ôl gyda ni yn fuan.

Hwyl Haf: Pwy fuasai wedi darogan y byddai'r tywydd wedi bod o'n plaid eto eleni ond dyna yn sicr a ddigwyddodd. Trodd y tywydd yn braf ac fel canlyniad fe gafwyd Hwyl Haf llwyddiannus dros ben ar Gorffennaf 13. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r criw bychan ond brwdfrydig iawn am eu gwaith ar y stondinau, wrth y giât, ac am arolygu yr holl gemau. Sicrhawyd elw ariannol o £80. Tydi'n braf gweld y fath gydweithio yn mynd ymlaen a hynny yn yr ysbryd gorau posibl. Edrychwn ymlaen yn awr at gynnal yr Eisteddfod ym mis Rhagfyr. Bydd mwy o fanylion am hynny yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Priodas Ruddem: Hyfrydwch i ni yn Sardis yn cael llongyfarch Mr a Mrs John Thomas, 16 Tai Rhydfadog, am ddathlu ohonynt eu priodas ruddem yng nghwmni nifer o gyfeillion. Cerrig milltir pwysig mewn bywyd yw dathliadau fel hyn.

Costau Telthio: Ni all rhai ohonom beidio sylwi bod y fares bws o Ddinorwig i Gaernarfon yn tueddu i fod yn gymharol uchel, tra cedwir y fares yn isel o Lanrug i Gaernarfon oherwydd cystadlu â chwmni bws arall. Sieryd ffeithiau fel hyn drostynt eu hunain.

Edrych ymlaen at dymor y Cymdeithasau Diwylliadol:

Bellach yr ydym yn paratoi ar gyfer gweithgarwch yr hydref a'r gaeaf, y tymor hwnnw eto lle mae diwylliant yn blaguro, ac hefyd ddod i aeddfedrwydd. Tymor dilyn y Cymdeithasau Llennyddol a Diwylliadol yw hwn a'r cyfle i ddilyn ysgolion yr hwyrddyd i Oedolion, a dyma'r adeg i addasu ein hunain ar gyfer gwanwyn a haf y tymor dilynol, a'r cyfan yn arwain i ffrwyth Eisteddfod Llên a Cherdd. Dyma'r pethau sy'n gwarantu tyfiant yr hil ddynol, ac yn codi dynoliaeth uwchlaw bywyd yr anifail ac yn cymell agosau eto at yr hyn sydd orau a dyrchafol mewn bywyd.

Dathlu Priodas Aur: Ar Orffennaf 30ain roedd Mr a Mrs O.R. Williams, 29 Tai Rhydfadog, yntau â chysylltiadau clos â Dinorwig, yn dathlu eu priodas aur. Trefnodd eu mab, Irfon, a'i briod, Ann, wledd i'r teulu a'u ffrindiau yng ngwesty Gwêl-y-Llyn, Llanberis. Treuliwyd prynhawn hapus a chyfeillgar iawn gyda Mr a Mrs Williams yn mwynhau y cwmniâeth. Cyfarchwyd yn dda iddynt gan amryw o'r gwesteion. Roedd pawb oedd yno wedi mwynhau y wledd, ac fe gafwyd prynhawn difyr iawn. Dymunir y gorau i'r ddau, a gwell iechyd i Mr Williams, fel y caiff ei ddymuniad i ddychwelyd i'w gartref yn y dyfodol agos. Diolch yn fawr iawn i Ann ac Irfon am barti rhagorol.

Capell Dinorwig: Ymwelodd Henaduriaeth Arfon â Chapel Dinorwig (M.C.) ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 20fed. Y tro olaf yn flaenorol i hyn ddigwydd oedd yng Ngorffennaf 1983. Er gwaethaf y tywydd gwlyb fe gafwyd cyfarfodydd bendithiol iawn. Yn ystod cyfarfod y pnawn fe anrhydeddwyd Mr O.R. Williams ar sail cyflawni ohonno hanner can mlynedd fel blaenor, ac yng nghyfarfod yr hwyr fe ordeiniwyd nifer o flaenoriaid o wahanol gapeli'r Henaduriaeth a'u cydnabod yn swyddogol.

Roedd yr addoldy wedi ei beintio a'r pulpud yn ogystal â'r sedd fawr ar eu newydd wedd gan bod teulu'r ddiweddar Mrs Katie Griffith, Amodfa, — hithau'n aelod ffyddlon

iawn — wedi rhoddi carped coch hardd er cof amdani. Dyma rodd a werthfawrogydd yn fawr gan yr aelodau, oherwydd roedd dirfawr angen amdanynt i harddu'r adeilad. Ymdeimlad o ddiolch sydd ymysg yr aelodau am garedigrwydd mor ymarferol.

Darparwyd te yn y Ganolfan gan chwiriwydd yr Eglwys ac mae yno awyrgylch glos, gynnes a chyfeillgar, ac fe allai pawb dystio iddynt gael gwledd arbennig o dda. Dymunir pob bendith ar y cyfarfyddiad.

Fe deimlai Capel Sardis (B) hwythau bod trefniadau wedi cerdded yn llwyddiannus er sicrhau gweinidogaeth sefydlog i gylch o gapeli o amgylch canolfan ym Mhenuel, Bangor. Hyderir derbyn gwenau Duw ar y fenter newydd hon, ac fe obeithir y bydd gan y cyfaill a dderbyniodd yr alwad ei gyfraniad cyfoethog arbennig i gylch-daith capeli'r gornel arbennig hon o Gymanfa Arfon a Chymru.

Clwb Gwerin y Coed: Ym mis Gorffennaf fe fu aelodau'r Clwb yn treulio penwythnos yn gwersylla yn

Llangoed, Sir Fôn. Fe gafwyd amser bendigedig yno gyda thywydd sych ac fe dreuliodd yr amser yn cerdded trwy goedwigoedd a mynd i Draeth Bach.

Tystiwn i ni gael blwyddyn ragorol ac mae ugain o blant yn cyfarfod bob nos Wener. Os dymuna eraill ddod a'u plant mae grŵp ieuainc o 6-9 oed yn dechrau yn y Ganolfan am 5 o'r glod hyd 6.30, gyda grŵp 'Pioneers' 10-12 oed yn dechrau am 6.30. Estynnir croeso i'r rhai a fyynn ymaelodi.

Diolchwn am bob cefnogaeth a gafwyd eisoes gan gydnabod diddordeb Liza ac Oliver Knowles, Blue Peris, clybiau 'Gwerin y Coed', Bangor a Chonwy a Chlwb 'Badger' o Fangor.

Noson Moes a Phryn: Nos Wener, 18 Hydref yn y Ganolfan ceir stondinau, gemau, paned o de, cacennau a dilladau. Dewch i gael noson o hwyl yng nghwmni Clwb Gwerin y Coed. **Diolch:** Fe hoffai Helen Jane Corless ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a dderbyniodd pan ddewiswyd hi yn Dywysoges Carnifal Deiniolen 1991.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872276

Marwolaeth: Dydd Gwener, Gorffennaf 26, yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Winnie Jones. Claddwyd hi ym mynwent Llanrug ddydd Mawrth, Gorffennaf 30.

Un o blant y fro hon oedd Mrs Jones, wedi ei geni a'i magu yn yr ardal. Bu hi a'i phriod yn byw am flynyddoedd ym Mryn Cwil. Wedi marw ei phriod symudodd Mrs Jones i 1 Tai Trefor, Tŷ Capel Eglwys M.C. Tan-y-Coed, a gofalu yn fedrus a chydwybodol am yr adeiladau am flynyddoedd hyd nes iddi symud i fyw i Gaernarfon.

Colled fawr oedd colli ei sirioldeb a'i gwên a'i llafur yn y cylch yr oedd yn troi ynddo yn ei heglwys a'i hardal.

Cydymdeimlir a'i dwy chwaer a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

Gwobrwyo: Ar Gorffennaf 14 gwobrwywyd plant yr Ysgol Sul am eu gwaith yn yr Arholiad Llafar. Y rhai a gafodd wobr oedd Robin Thomas, Natalie Blanchard, Bethan Pritchard, Iwan Pritchard, Rheon Parry a Sian Pritchard. Cymerodd pob un o'r plant ran yn y gwasanaeth a chawsant anerchiad gan y Parch John Morris. Miss Enid Roberts oedd yn cyfeilio. **Diolch:** Hoffai Miss Enid Roberts ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd. Diolch am yr holl ymweliadau, galwadau ffôn, anrhegion a chardiau. Diolch yn fawr hefyd i'r meddyg teulu a meddygon a staff Ward Dulas yn Ysbyty Gwynedd am eu gofal.



Priodas: Yng Nghaernarfon, ar Awst 24, priodwyd Miss Glenda Robers, merch Mr a Mrs Cyril Roberts, 1 Tai Minffordd, â Mr Huw Dylan Hughes, mab Mr a Mrs Tom Hughes, Tryfan, Bodorgan. Pob lwc iddynt yn y dyfodol.

Ysbyty: Gwellhad buan i Mrs Alwena Jones, Bro Rhyddallt, sydd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

CEIR ELIDIR LLANBERIS 870449

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i
bensïynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

GERDDI GLASCOED (Ger Capel Glascoed) PENISARWAUN

- ★ Planhigion Border
- ★ Llwyni
- ★ Basgedi
- ★ Grug
- ★ Rhosod hen ffasiwn
a llawer mwy
Galwch heibio
neu ffoniwch
870453

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Llongyfarchiadau:

- i Margo, Cefn Gôf, ar ei phriodas ddiweddar;
- i Ceri Ann Roberts, 10 Erw Wen, ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol;
- i bobl ifanc y pentref yn eu llwyddiant yn yr arholiadau. Pob lwc iddynt yn y dyfodol, yn eu gwaith, neu yn eu colegau;
- Sara Wallace Edwards, Maes-y-Coed, ar ei phriodas yn ddiweddar;
- i Bethan a Dafydd Iwan ar enedigaeth Caio;
- i Mrs Mary Albert Jones, Rhes Glangwna, ar ei phenblwydd yn 80 oed ar 14 Medi;
- i Llyr Morris Roberts, Gerallt, Erw Wen, ar ei benblwydd yn 18 ar 12 Gorffennaf;
- i Iolo Morris Roberts, Gerallt, Erw Wen, ar ei benblwydd yn 21ain oed ar 20 Medi;
- i John Pritchard, 8 Bryn Gôf ar ei benblwydd yn 21ain oed yn ddiweddar.

Cydyndeimlwn â Owie a Nancy a'u teuluoedd ar golli mam a nain annwyl.

Sioe'r Pentref: Cynhaliwyd y Sioe ar 24 Awst, a dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r rhai a gymerodd ddiddordeb trwy gystadlu neu trwy ddod i weld y cynnyrch. Yr enillwyr oedd — Dosbarth 1: Deiniol Hughes, John Ifor Hughes, Mrs Atkinson, Mrs Muhlenfeld; Cwpan Plas Treflan: J. I. Hughes. Dosbarth 2: Deiniol Hughes, Mr Albert Jones, John I. Hughes. Cwpan Cefn Gôf: J. I. Hughes. Dosbarth 3: Mrs Roberts, Monfa, Mrs L. E. Jones, Mrs Einir Wyn Roberts, Gwenno Hughes, Miss L. Williams, Refail, Mrs Beryl Roberts. Cwpan Clwb y Merched: Mrs L. E. Jones. Dosbarth 4: Mr Muhlenfeld. Dosbarth 5: Dona Roberts, Catrin Roberts, Rhys Roberts, 'Twm', 'Marc Hughes', 'Cadi', 'Wali Tomos', 'Gemma', 'Rat', Lois Roberts, Manon Hughes, Ceri Ann Roberts.

Dymuna Mrs Mary Albert Jones, Rhes Glangwna, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd adeg ei phenblwydd yn 80 oed. Diolch am y cardiau a'r anrhegion ac i bawb a alwodd i'w gweld ar y diwrnod.

Dymuna Ceri Ann Roberts ddiolch i Mrs Einir Wyn Owen, Rhiwlas, ei theulu, a'i ffrindiau am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd yn ystod yr Ŵyl yn Yr Wyddgrug. Hefyd am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON



Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, fu cyrchfan yr aelodau o 22-25 Gorffennaf 1991, gyda nifer ohonom yno o ddydd Sul i ddydd lau yn mwynhau ein hunain. Ar y dydd Llun Nia a Tegwen fu'n chwysu uwchben stôf drydan yn cystadlu yn y gystadleuaeth coginio i rai dan 18 oed. Darparu pryd i ddau oedd eu tasg gyda'r bwydydd â blas Ewropeaidd arnynt. Gwnaethant yn dda iawn drwy ddod yn bedwerydd.

Cafodd Aled ddau ddiwrnod prysur ddydd Llun a Mawrth gan ei fod yn beirniadu ŵyn byw a charcas ar ran Eryri i rai dan 21 oed. Bu'n cystadlu hefyd fore lau ar feirniadu gwartheg Charlois. Ni ddaeth i'r brig ond mwynhaodd ei hun.

Pnawn lau bu'r criw dawnsio gwerin yn cystadlu ar ran Eryri. 'Roedd yn gystadleuaeth dda iawn a'r safon yn uchel. Daeth tîm Eryri yn chweched. Dawnsiwyd dwy ddawns, sef 'Pont Cleddau' y ddawns orfodol a 'Tŷ Coch Caerdydd'. Aelodau o'r tîm oedd Catrin, Eurwyn, Nia, Ruth, Arwel, Llinas Angharad, Wendi, Alwyn a Llinos. Diolch i Bethanne am eu hyfforddi.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 20, bu'r tîm dawnsio gwerin yn diddori yng Ngharnifal Bethel, gan wneud

arddangosfa o'r ddwy ddawns a oedd ganddynt yn y Sioe. Diolch i'r aelodau am eu parodrwydd i ymateb i gais Pwyllgor y Neuadd i gymryd rhan.

Bu Eurwyn mewn sioe ar Ynys Manaw ar ran Ffederasiwn Eryri i feirniadu gwahanol fridiau o ddefaid. Er na ddaeth i'r brig cafodd gyfle i gymdeithasu a chyfarfod ag aelodau o wahanol siroedd a mwynhaodd y profiad.

Super Bowl, Y Rhyll, gyda'i atyniad o 'Ten Pin Bowling' oedd cyrchfan nifer o'r aelodau ar 18 Awst. Cafwyd cyfle i gael dwy gêm ac yna bwyd yn y Super Bowl a chyfle i fynd o amgylch y ffair cyn mynd am adref. Diolch yn fawr i Gwen am drefnu'r trip — bechod na fedrai ddod gyda ni oherwydd cawsom amser da iawn.

Bydd y Clwb yn ail ddechrau ar 24 Medi gyda Helfa Drysor a Barbeciw. Mae croeso i unrhyw un sydd dros dair ar ddeg oed ymuno â ni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar Felinheli 670071 neu 670312.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£10: Tydfil Jones, 20 Rhydfadog, Deiniolen; Ann Japheth, Elidir, Stryd Garnon, Caernarfon.

£7.50: Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon.

£5: Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-Glo; Mrs Glenys Roberts, 13 Maes Gwylfa, Deiniolen; Mrs Gwladys Jones, Iris a Gwyneth, 18 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs M. C. Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-Bont, Deiniolen; John ac Eileen, 16 Rhydfadog (Bwlch Gwynt gynt), Deiniolen; Mr a Mrs H. J. Jones, 9 Maes Gwylfa, Deiniolen; y ddiweddar Enid Williams, 2 Blaen Ddôl, Llanberis; Teulu'r ddiweddar Mrs Annie Griffiths, 47 Maes Padarn, Llanberis; Di-enw, Llanberis; Myrddin a Gaynor, Penterfyn, Llanrug; Dorothy May, Caernarfon, er cof am ei rhieni William Thomas a Mary Jones; Mr a Mrs E. Williams, 1 Bryn Gro, Llanrug; Mrs Nancy Jones, Bron Eilian, Bethel; Miss Enid Roberts, Minafon, Tan y Coed; Mrs C. Williams, Mor Awel, Tan y Coed.

£3: Mr a Mrs Windsor Williams, Rhes Marian, Deiniolen; Mr a Mrs O. R. Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen (Dinorwig gynt); Mrs C. E. Roberts, Hedsor Villa, Llanrug.

£2: Mrs Lily Horman, Venice, Llanrug; Eifion Williams, 39 Rhydfadog, Deiniolen; Linda Jane Thomas, 6 Rhydfadog, Deiniolen; Mr George Taylor, Baladeulyn, Waunfawr; Mr a Mrs A. Williams, Pennant, 7 Nant Ffynnon, Nant Peris; Helen Sharp, Llanberis; Dilys Williams, 6 Coed y Ddôl, Llanberis; Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mrs Karen Margaret Jones, Dinorwig.

£1: Chris a Gerwen, 9 Ffordd Tŷ Du, Llanberis; Mrs Mary W. Thomas, Flat 6, Birmingham House, Llanberis; Catrin a Christine, 34 Maes Padarn, Llanberis.

DIOLCH

Dymuna teulu y ddiweddar Anne Jones Roberts, 31 Rhês Assheton, Caernarfon (gynt o Maes Eilian, Dinorwig) ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Trwy haelioni derbyniwyd £320 tuag at Gronfa Offer Meddygfa Bron Seiont.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

CYSTADLEUAETH MIS MEDI

Mae'r wobwr y mis yma yn cael ei rhannu rhwng:

Ffion Williams, Y Ddraenen Fach, 20 Y Ddôl, Bethel (5 oed)

Paul Hywel Hughes, 5 Bro Eglwys, Bethel (6 oed)

Bethan Roberts, 14 Stryd Ceunant, Llanberis (6 oed)

LLONGYFARCHIADAU I CHI'CH TRI

Enw.....

Cyfeiriad.....

Oed.....

LLIWICH YR ADAR GAN DDEFNYDDIO LLIWIAU LLACHAR



ECO'R IFANC

1. Coch; 2. Glas Golau; 3. Oren;
4. Brown; 5. Gwyrdd Tywyll;
6. Pinc; 7. Gwyrdd Golau;
8. Melyn 9. Glas Tywyll.



CORNEL JÔCS

Beth ddywedodd y llaw fach wrth y llaw fawr?
'Welai di mewn awr!

Be' 'di enw dy gi newydd?
'Dwn i ddim - wnaiff o ddim deud!

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng eliffant o'r India ac eliffant o Affrica?
Tua tair mil o filltiroedd!

Pam nad ydy robot yn ofni dim?
Am fod ganddo nerfau o ddur!

Glywsoch chi am yr hogyn 'na a arhosodd i fyny drwy'r nos yn trio dyfalu i ble'r aeth yr haul?
O'r diwedd fe wawriodd arno!

Be' ddywedodd y ci wrth iddo eistedd ar bapur tywod?
R-ryff!

Ble'r ydw i? Tu allan i Balas Buckingham.
Dwi'n gwybod hynny, ond be' 'di enw'r dref?!!

Pam fod dannedd nain fel sêr?
Am eu bod nhw yn dod allan bob nos!!

Beth sy'n felyn ar y tu allan ac yn wyrdd ar y tu mewn?
Ciwcybr wedi gwisgo fel bananal!

'Dwi ar ddeiet olew llysiau.
Wyt ti wedi colli pwysau?
Nac ydw, ond dwi wedi stopio gwichian!

Pôs Mis Hydref

P'RUN SY' DDIM YN PERTHYN?
DEWCH O HYD IDDO A'I GROESI ALLAN AR Y GRID

1. Oren, lemon, grawnffrwyth, melon.
2. Siôn, Siwan, Siân, Sali
3. Cas, diflas, blin, hapus
4. Milltir, litr, llathen, metr
5. Lori, olwyn, car, fan
6. Tomato, letys, berw, ciwcymber
7. Tawe, Teifi, Seiont, Tâf
8. Nyrs, doctor, ysbyty, arbenigwr
9. Mefys, mafon, eirin Mair, afal
10. Bangor, Manceinion, Llundain, Lerpwl
11. Morlo, morfarch, morglawdd, morfil
12. Caerdydd, Caergrawnt, Caergybi, Caernarfon
13. Brithyll, cimwch, eog, lledn
14. Cath, ceiliog, ci, ceffyl
15. Cocos, macrell, gwalc, gwichiad

ATEBION PÔS MIS AWST

YSGAWEN	LLARWYDDEN
YWEN	POPLYSEN
BEDWEN	PINWYDDEN
CELYNNEN	PALMWYDDEN
DERWEN	SYCAMORWYDDEN
HELYGEN	PISGWYDDEN

M	A	B	P	S	O	H	A	P	U	S	E	B	D	L			
E	I	O	C	T	H	G	F	M	E	G	H	U	M	P	I		
L	U	A	E	Y	W	G	C	D	D	A	M	G	A	E	T		
O	C	S	I	F	F	Y	N	I	O	B	P	H	W	C	S	R	
N	W	P	L	E	T	H	E	M	I	A	B	F	F	R	N	A	
C	H	N	S	I	Ô	N	F	W	L	N	A	E	E	C	F		
A	A	I	O	L	B	O	C	H	S	G	T	H	A	L	L	A	N
D	S	W	G	I	A	L	A	Y	O	L	N	Y	N	I			
A	N	G	A	N	I	R	A	B	R	I	F	O	P	H	D		
M	O	R	G	L	A	N	D	D	W	N	A	Y	C	H	Y	F	
T	O	M	A	T	O	U	N	H	P	H	U	I	E	S	A		
W	Y	T	H	W	A	N	D	A	F	N	A	N	W	B	C	H	
O	A	F	A	L	O	M	Y	A	W	E	T	H	I	Y	M		
R	P	O	U	T	H	R	S	E	I	O	N	T	F	T	E		
C	A	E	R	G	R	A	W	N	T	A	F	C	H	Y	A		

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Diolch: Dymuna Mrs Jean Hughes, 2 Bryn Gro, Cwmyglo, ddiolch yn fawr iawn i blant a rhieni ardal Brynrefail am eu cyfraniadau hael ar achlysur ei hymddeoliad fel cogyddes yn Ysgol Gymuned Cwmyglo, yn ddiweddar.

Cymdeithas Chwirydd M.C.: Cafwyd dau gyfarfyddiad o'r Gymdeithas yn ddiweddar dan lywyddiaeth Mrs Jennie A. Roberts, Glandwr. Cafwyd cyfle yn y cyfarfod cyntaf i groesawu Miss Nan Wyn Jones o Goleg y Bala a roddodd anerchiad cofiadwy yn trafod ei gwaith fel Swyddog Datblygu ym maes ieuenctid ac roedd yn symbyliad i bawb oedd yn bresennol. 'Roedd y myfyrdod yng ngofal Mrs Verna Jones, Meillionen, a threfnwyd lluniaeth gan Mrs Carol Houston a Mrs Jennie Hughes. Talwyd gair o ddiolch am noson arbennig gan Miss Lowri P. Roberts ac anfonwyd cofion at ddwy o aelodau'r Gymdeithas, sef Mrs Mair Griffith sydd ym Mhlas Pengwaith a Mrs Helen Roberts, Llwyncoed Bach. Pleser ar Fedi'r 5ed oedd croesawu Mr Leslie Larsen, Penisarwaun i'r Gymdeithas a chafwyd noson hynod o ddiddorol yn ei gwmni yn arddangos sleidiau unigryw oedd yn adlewyrchu prydfwrthwch ein hardal a'i chyffiniau ac yn ogystal yn drysorau hanesyddol. Diolchwyd iddo gan Mrs Verna Jones. Roedd y rhannau arweiniol dan ofal Mrs Pat Jones a pharadowyd lluniaeth gan Mrs J. Maxwell a Mrs Jennie A. Roberts. Gwerthfawrogydd y Trip Blynnyddol dan nawdd y Gymdeithas a fu ar ymweliad â Chanolfan yr Ymwelwyr Betws y Coed ac yna ymlaen i fwynhau golygfeydd hardd Dyffryn Conwy gan ddilyn ffordd yr arfordir tuag adref ond nid cyn galw ar gwr Ynys Môn lle mwynhaodd pawb bryd o fwyd blasus yng Ngwesty Carreg Brân. Cafwyd cwmniaeth hyfryd ar y daith yn blant, aelodau capel a'u ffrindiau ynghyd â chyfeillion o Gwmyglo. Talwyd gair o ddiolch am noson gymdeithasol hapus ac am y trefniadau gan y Gweinidog, y Parch John Morris. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos lau, Hydref 3ydd yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr.

Llongyfarchiadau i Jackie a Patrick Kyle, y Llythyrdy, ar enedigaeth merch fach a'n dymuniadau gorau

iddynt yn eu cartref newydd ym Mryn Tirion, Penisarwaun. Yr un modd, estynnwn ein llongyfarchiadau i Roderick a Janet Ellis Jones ar enedigaeth Dion James, Wyr i Mr a Mrs Arthur Jones, 5 Trem Eilian a phob dymuniad da yn eu cartref newydd 7 Bryntirion, Penisarwaun.

Hospis yn y Cartref: Cynhaliwyd Barbeciw ym Muarth yr Ysgol Fach yn ddiweddar a chafwyd cefnogaeth deilwng iawn i'r apêl i godi arian tuag at Hospis yn y Cartref yng Ngwynedd. Ynghyd â'r Barbeciw, roedd stondinau cacennau, hufen ia, pethau newydd, gêm a drefnwyd gan Nicola Houston yn ogystal â raffl. Enillwyd y raffl oedd Elwyn Jones (basged ffrwythau), Gwyneth Evans (siocled), Richard Wyn Evans (crwban), Blodwen Hughes (Bara Brith), Jean Davies (llyfr cyfeiriadau), Andrew Jones (tegan meddal). Carai'r trefnwyr ddiolch am roddion mewn arian a nwyddau, i Mr Mike Lamb, Penisarwaun am roi benthyg yr offer barbeciw ac i bawb am eu presenoldeb. Gwnaed elw o £196. Nos lau, Gorffennaf 4, cafwyd arwerthiant dillad a raffl, a gwnaed elw pellach o £20 guag at gronfa'r Hospis. Enillwyd y raffl oedd Susan Williams (ffrâm luniau), Dwywnwen Williams (Cragen dal blodau), a Phyllis Jones (set bwrdd gwisgo).

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen ieol nos Lun, Medi 16, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, Cae Coch. Treuliwyd y noson gyda Mrs Peggy Jones, Waunfawr, yn arddangos ei chreffftwaith a oedd o safon arbennig o uchel. Roedd y lluniaeth yng ngofal Mrs Mair Jones a Mrs Jean Davies ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Gillian Morris, gan Mrs Mair Jones. Cynhelir noson Fictorianaid yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon, nos lau, Hydref 10, a bydd Cyngor yr Hydref yn cael ei gynnal ym Mhwllheli nos lau, Hydref 17. Derbynir enwau i'r ddau gyfarfod hwn gan yr ysgrifenyddes Mrs Betty Owen.

Talwyd gair o ddiolch i Mrs Carol Houston a Mrs Eleanor Williams trefnwyr y Trip Blynnyddol a fu ar ymweliad â'r Ganolfan Geltaidd yn y Rhyl. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Hydref 21, pryd y disgwylir Mr Gareth Evans, Conwy, aelod o'r tîm paramaedig i roi sgwrs.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Ysgol Gymuned Cwm y Glo:

Fyddwch chi'n arswydo pan ddaw dydd Gwener y 13eg heibio?

Ydych chi'n ofnadwy o ofergoelus ac yn osgoi pawb a phopeth ar y dyddiad arbennig yma?

Fyddaf i ddim. Dyna pam na theimlwn ofn na phryder o gwbwl pan drefnwyd barbeciw a disgo yn yr ysgol ar y dyddiad dan sylw.

Syniad y gwagedd oedd o ac yn eu mysgr oedd mamau, cyn-famau a chyfeillion yr ysgol. Gweithiodd pawb yn eithriadol galed i sicrhau gwledd. A dyna a gafwyd — gwledd go iawn yn cynnwys biff byrgys, sosej, bîns, chili, tatws trwy'u crwyn, salad, reis a llawer o ddanteithion eraill. Cafwyd benthyg 'barbi' a dyna lle roeddwn i — JR a Mr Dafyd Preis — yn coginio fel dwn i ddim be'. Fedrai sawl un a'n gwelodd ddim peidio gwneud sylw pa mor dda yr edrychem yn ein dillad chef. A dweud y gwir, bu raid i ni wrthod sawl gwahoddiad i fynd i goginio i lefydd eraill am ein bod mor eithriadol brysur!

Yr oedd y ciw yn ymestyn at giât yr ysgol ac efo'r gwynt yn chwythu fel 'roedd o, yr oedd pobl Llanrug yn gallu arogl'r bwyd! Mae'n siwr fod pawb oedd yma wedi mynd adre' yn llawn fel bwngi, fel bydd hogia Môn yn dweud. Bu eraill yn ddigon synhwyrol i fynd i'r disgo i ddawnsio a cholli pwysau. Dim 'slow-slow-quick-quick-slow' oedd hi ond 'fast-fast-faster' i gael gwared a'r braster!! Chlywais i fawr o'r gerddoriaeth ond diolch yr un fath i fechgyn y Clwb Ieuenctid am drefnu popeth.

Diolch i bawb fu'n gweithio mor galed i sicrhau llwyddiant y noson. Bu eu hymdrechion yn ddigon i godi £260, fydd yn cael ei rannu rhwng yr ysgol a'r Clwb Ieuenctid.

Dyma'r bobl ffodus gafodd wobwr yn y raffl fawreddog a gynhaliwyd, er gwaethaf y glaw. Potel o win: 3 Craig y Don; Tacuswr Desg: Neil Rowlands, Glanrafon; Gwydrau: Goleufryn; Drewi Neis: Ferodo 2227; Pot Pupur a Halen: Huw Davies, Alexandra House; Crys T: Mr Chick; Plât Brechdan: Mrs Rita Williams; Ornaments: Dafydd, Bwlch; Fflasg ddiod: Robert Shaw, St. Davids, Bwlch. Diolch i bawb a roddodd wobwr ac i bawb arall am gefnogi mor hael.

Clwb Pobl y Cwm: Ail agorwyd y Clwb ar 12 Medi wedi seibiant gwyliau'r haf, a mwynhawyd awr o Bingo gyda Mrs Enid Price yn galw, cyn trafod rhaglen y tymor. Da oedd gweld rhai o'r aelodau fu'n wael yn bresennol, a hyderwn y gwelwn Mr Russell Rowlands yn ôl yn y dyfodol.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf collwyd tri o wŷr y pentref, colled fawr, yn arbennig mewn pentref bach fel y Cwm. Dymuna'r aelodau gydymdeimlo'n ddwys â theuluoedd y diweddar Mr Hubert Roberts, Mr Evan Gwyn Owen a Mr David Pritchard, y ddau olaf wedi eu mhagu yma, a Mr Roberts wedi byw yn ein plith ers dros ddeng mlynedd ar hugain, ac yn un ohonom o'r dechrau.

Gofalwyd am y baned gan Mrs E. Hughes a Miss E. Hughes, ac enillydd y raffl oedd Mrs E. M. Jones.

Llongyfarchiadau i Christopher Jones, Arosfa, Fron Gader, ar ennill gradd B.A. gydag Anrhydedd mewn

Cerflunio, yng Ngholeg Politechnig Bryste.

Marwolaeth: Yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon, ddydd Mercher, 31 Gorffennaf, yn 57 oed, bu farw Mr Evan Gwyn Owen, gynt o Dolgwynedd.

Yn enedigol o'r Cwm bu Evan yn weithgar iawn yn y pentref, bu'n gadeirydd pwyllgor y cae chwarae, pwyllgor y carnifal ac yn ddiweddarach yn cynorthwyo gyda thîm pêl-droed ieuenctid y pentref, hefyd yn gapten tîm dartiau yn y Fricsan. Bu'n Warden Eglwys St. Gabriel am dros 20 mlynedd ac yn trefnu trip blynnyddol yr Ysgol Sul.

Bu'n angladd yn Eglwys Sant Gabriel ac yn dilyn ym mynwent Llanrug, ddydd Sadwrn, Awst 3. Gwasanaethwyd gan y Parch P. Pritchard a Mr J. R. Jones, Tregarth, a'r organydd oedd Mr Cyril Williams, Caernarfon.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i ferch Susan a'i phriod, a'i fab Kevin a'i briod, ei wŷr a'i wyresau Dawn, Gary, Ian, Mared a Glesni, hefyd ei chwaer Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Gorffennaf 12 bu farw Hubert, Bod Gwynedd, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Llanrug ar ôl gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Sant Gabriel. 'Roedd wedi bod yn gweithio gyda Dŵr Cymru ers deuddeg mlynedd. Dymuna Gwyneth, Sioned a Melfyn ddiolch yn ddiffuant i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt tra bu Hubert yn wael ac yn ystod eu profedigaeth. Hefyd dymuna Gwyneth ddiolch i bawb a gydymdeimlodd â hi wedi colli Evan. Yn dawel yn ei gartref, 23 Dolafon, bu farw David (Beb) ar Medi 5, yn 78 mlwydd oed. Bu'r angladd ddydd Mawrth, 10 Medi, gyda gwasanaeth preifat yn ei gartref a chyhoeddus ym mynwent Llanrug. Gedy weddw, tri mab ac un ferch, saith o wyrion a thair o wyresau ac un orwyres fach. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Gwynfor Williams a John Pritchard. **Diolch:** Dymuna Jean, 2 Bryn Gro, ddiolch yn fawr iawn i'r prifathro, athrawon, staff y gegin, llywodraethwyr, plant, rhieni a ffrindiau am yr holl anrhegion, arian, blodau a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad yn ddiweddar.

TEYRNGED AR GÂN
I Mrs JEAN HUGHES AR EI
HYMDDEOLIAD 19/7/91

Diolch yw ein neges i chi, Farwel — dyna ddywedwn ni. Diolch am bopeth a wnaethoch i ni, Dyna ein neges ni heddiw.

Tatws, letys, chips a mins, Spageti, stiwl, fish fingers, Salad, grefi, moron, reis, Lobscows, pŷs a biff byrgys. Fe gafodd pawb lond plât bob dydd i'w fwyta yr oedd digon, Diolch, Mrs Hughes yw'n cân, Diolch o waelod calon.

Cwstard, sbwnj neu deisen jam Yn bwddin iach bob diwrnod. Ffrwythau, pestri neu eis crîm, Llond plât i bawb — dim gormod. Ond rŵan, cegin 2 Bryn Gro Fydd palas y Chief Cogydd, A Mr Maldwyn Hughes a gaiff Y sylw yn dragywydd!!

Rhosyn Coch a'i cânt.

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O. YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Ysgol Tan y Coed: Pleser oedd croesawu pawb yn ôl i'r ysgol wedi gwyliau'r haf, yn enwedig y dosbarth meithrin. Gobeithio y byddant yn cael gyrfa hapus iawn gyda ni yn Nhan y Coed. Croeso hefyd i James a Fiona o Fethel, sydd newydd ddechrau yn yr ysgol.

Yn ddiweddar aeth dosbarth Mrs Thomas i lawr i'r Gegin Fach yng Nghaernarfon i flasio paned o de fel rhan o'u cywaith dosbarth. Diolch i'r Gegin Fach am eu croeso, a braf iawn oedd clywed gan Mrs Thomas fod y plant wedi ymddwyn yn ardderchog, ac fod nifer a'u gwelsant yn y dref wedi dweud pa mor ddel oedd pawb yn edrych yn eu gwisg ysgol newydd.

Yr un diwrnod aeth yr Uned Iau i Stiwdio Barcud i gymryd rhan yn y rhaglen 'Sdwnsh'. Er nad oedd fawr o drefn i weld ar y set, fe ddywedwyd wrthyf y diwrnod hwnnw mai dyna oedd amcan y rhaglen. Cyn dychwelyd fe gafodd pawb ginio blasus. Diolch i gwmni Dime Goch am eu gwahoddiad a'u croeso.

Sioeau Amaethyddol: Daeth llwyddiant ysgubol i Siôn Jones, Dilwyn Green a Dylan Griffiths yn y gwahanol sioeau amaethyddol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dymuniadau da: Pob bendith i Iola Williams, Carrog, ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Fiona Jones ar ei llwyddiant yn ei harholiad RGN. Y mae Fiona yn nyrsio yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Pat a Leslie Larsen ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd baban bach i Sioned a Trystan.

Croeso: Gobeithio fod Arvon Jones wedi hen ymgartrefu yn Llys y Gwynt.

SBLAT: Bu Dyfed Jones, Bryntirion, yn brysor yn ddiweddar. Cafodd gyfle i recordio ar gyfer rhaglen SBLAT gyda HTV Cymru. Gobeithir ei weld ar y sgrin yn ystod yr hydref. Edrychwn ymlaen am ei weld.

Priodas: Dymunir pob hapusrwydd i Eurgain Roberts a'i gŵr a briododd yng Nghapel Bosra yn ddiweddar. Dyma'r briodas gyntaf i'w gweinyddu yn y capel.

Pob hapusrwydd hefyd i Barry Jones, mab Mr a Mrs Eurwyn Jones, Camelot, ar ei briodas yn ddiweddar â Gwenda Williams, Maes-yr-Haul, Bethel.

Pob bendith i John Jones, Plas Dulas, Waun, ar achlysur ei briodas yntau.

Priodas Arian: Anfonir dymuniadau da a phob bendith i Carys ac Arwel Jones, Pant Hywel, ar ddathlu eu priodas arian.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchwn Osian Dafydd, ar ei llwyddiant mewn arholiad piano. Y mae'n ddisgybl i Carys Jones, Pant Hywel.

Profedigaeth: Wedi brwydr ddewr, collodd Bryn Eglwys ffrind annwyl iawn ym marwolaeth Dorothy Parrot. Bu'n gefnogol i bob gweithgaredd yn y pentref. Cydymdeimlir yn ddwys iawn a'r teulu i gyd.

Dynes ddiwylliedig a hynaws iawn oedd Mrs Hazel Turner, Tyddyn Difyr. Bu hithau farw'n dawel yn Ysbyty 14

Gwynedd, yn 81 oed. Anfonir y cydymdeimlad dyfnaf at Robert a Julia a'r teulu oll. Cydymdeimlir â Miss Mair Foulkes, hithau wedi colli'i chefnider yn ddiweddar.

Gwellhad: Derbyniodd Mrs Ethel Jones, Rheon Larsen, Richard Williams ac Eurwyn Jones driniaeth yn yr ysbyty. Balch ydym o ddeall eu bod yn gwella. Anfonir ein cofion at unrhyw un arall sy'n sal yn y pentref.

Ysgol Sul Bosra: Hyfryd oedd gweld tua 20 o aelodau yn yr Ysgol Sul, fore Sul, Medi 7, wedi seibiant yn ystod mis Awst. Mae amser prysur o'n blaen, gyda gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd, a gwasanaeth Diolchgarwch.

Y Gymdeithas Feiblaidd: Cynhelir gwasanaethau'r Gymdeithas Feiblaidd ym Mhenisarwaun ar Hydref 6. Cynhelir Cyfarfod y Plant yn **Eglwys Santes Helen** am 2 p.m. gyda Chymanfa Ganu yng **Nghapel Bosra** am 6 p.m. Yr arweinydd fydd Mrs Einir Williams, Rhiwlas. Gwneir casgliad at y Gymdeithas yn y ddau gyfarfod. Croeso cynnes i bawb.

Pwyllgor Neuadd: Buan iawn y bydd disgyblion bach Iwcus y pentref yn troedio i gynteddau yr Ysgol Gymunedol newydd. Ond mae'r dasg o godi arian yn bodoli o hyd, a chydabyddir eich haelioni a'ch cefnogaeth i'r gweithgareddau ac i'r Clwb Cant.

Y Carnifal oedd y gweithgaredd olaf a gynhaliwyd a chafwyd wythnos o hwyl a sbri. Diolchir i Eifion Harding, Wendy Phillips ac aelodau'r pwyllgor a phawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd i'r wythnos gymdeithasol hon. Diolch o galon i Dafydd Morris am gael defnyddio'r cae.

Tynnwyd Clwb Cant mis Awst yn yr Ysgol: 1, G. R. Williams, Llys Myfyr; 2, A. Thomas, Tai Arthur; 3, N. Jones, Meillionydd.

Anfonir cofion annwyl at Huw Williams.

Cynhelir Noson Calangaeaf nos Iau, Hydref 31 am 6.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys. Beirniad y gwahanol gystadlaethau fydd Mrs Alma Jones, Waunfawr. Bydd diod, raffl a chŵn poeth ar werth. Croeso cynnes i bawb.

Eisteddfod Bentref: Fel y dywedodd Aled Lloyd Davies o lwyfan y Genedlaethol ym Mro Delyn, mewn eisteddfod bentref a'r Urdd mae meithrin y doniau. Yma y megir hyder ac y dysgir sut i ennill a cholli. Oddi

yma y cychwynnir y daith cyn cyrraedd y pen draw — y Genedlaethol. Pwy wŷr na fydd rhai o'n heisteddfodwyr ifanc ni yn cyrraedd y brig maes o law, yn enwedig ar ôl blasu eisteddfod lewyrchus a llwyddiannus eleni eto.

Ysgol Feithrin: Cychwynnodd tymor newydd yr Ysgol Feithrin fore Mawrth, Medi 3, am 9.15 a.m. Dymuna Mrs Judith Harding ddiolch i Manon, Haydn, Deian, Mathew, Amy ac Ian am eu hanrheg, a dymunir yn dda iddynt yn Ysgol Tan y Coed yn nosbarth Mrs Thomas.

Cyfeillion Tan y Coed: Llauer o ddiolch i bawb a fu o gymorth i osod stondin Tombola llwyddiannus diwrnod Ras yr Wyddfa. Casglwyd £58.10 a gwerthwyd gwerth £33.50 o lyfrau raffl.

Treuliodd nifer o'r Cyfeillion fore Sadwrn ar Faes Caernarfon yn gwerthu teisennau a raffl i godi arian. Y rhieni oedd wedi paratoi'r cynnyrch ac wedi dwy awr roedd y cyfan wedi'u gwerthu gydag elw o £113.00 i gronfa'r Ysgol. Diolchir i bawb a fu mor garedig i ymateb i'r apêl, am y nwyddau i'w gwerthu ac i'r Cyfeillion a ddaeth i'r Maes. Tachwedd 29 cynhelir Ffair Nadolig i dynnu'r Raffl Fawr.

Llwyddiant Arholiadau: Pleser o'r mwyaf yw llongyfarch pob un fu'n sefyll arholiadau Coleg, TGAU a Lefel-A yr haf hwn. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Cydymdeimlo: Estynnir ein cydymdeimlad llwyrfa â Mrs Mary Davies, ar farwolaeth ei brawd ieuengaf.

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth sydyn nith i Mr Eifion Harding. Ein cydymdeimlad dwysaf â chwi oll fel teulu.

Gair o Ddiolch: Dymuna Iola Williams, Carrog, ddiolch yn ddifffuant iawn i'w rhieni, perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 18 oed.

Dymuna Rhian Williams, Cae'r Bythod, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar ei phenblwydd yn 21ain oed.

Dymuna Mrs Mary Davies ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs R. Griffith, Groeslon Isaf, ar ddod yn nain a thaid, ac i Beti a Dafydd Roberts, Bryntirion, hwythau yn nain a thaid unwaith yn rhagor.

Pob hapusrwydd i deulu bach 7 Bryntirion ar enedigaeth eu baban bychan.

Ymddiheuriad: Ymddiheurir na chynhwysir canlyniadau'r Carnifal na chanlyniadau'r Eisteddfod Bentref yn y rhifyn hwn.

Eglwys Santes Helen
Gwibdaith i Fetws-y-Coed, Conwy a Llandudno ar 5ed Hydref. Am fanylion pellach, i roi eich henwau ac archebu bwyd, a.y.b., ffoniwch Llanberis 871219.

Diolchgarwch: Cynhelir Gŵyl Ddiolchgarwch eleni ar ddydd Sul, 13 Hydref. Bydd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid yn y bore am 10.30 gyda'r Parch David Jerman o Landrygan, Môn, yn pregethu.

Ffair Cynhaeaf: Bydd y Ffair Cynhaeaf flynyddol yn cael ei chynnal yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 p.m. nos Lun, 14 Hydref. Bydd stondinau a raffl a phaned. Croeso cynnes i bawb.

Urdd Adran Bentref: Bydd gweithgareddau'r Urdd yn ail ddechrau nos Fawrth, Hydref 29, yn Ysgol Tan-y-Coed. Bydd y cyfarfod cyntaf yn dechrau am 5.30 a bydd cyfle i'r plant ymaelodi am £2.20, a gwylio fideo. Mae'n rhaid i'r plant fod yn 6 oed ar Fedi 1, 1991 er mwyn cael ymaelodi.

Plygu'r Eco: Diolchir i bawb a ddaeth i blygu yr Eco hwn. Diolchir i Swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd. Bu'r ymateb i'r poster yn Siop Gron yn gefnogol iawn. Diolch yn fawr.



Siôn Wyn Jones, Tyddyn Perthi, yn Sioe Eglwysbach efo'r Tarw Du Cymreig fu'n bencampwr mewn sawl sioe eleni yn cynnwys y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

**Barrys
GLASS**



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

CHWILOTA

Pa mor hen yw'r Efail Newydd?



Yn ystod y misoedd diwethaf cafwyd gwybodaeth am hanes tŷ/tai ac ardal yr Efail Newydd, a saif ar yr allt yn arwain o Bontrhythallt tua Phenisarwaen. Mae'n amlwg fod mwy o waith ymchwil wedi ei wneud yn ystod gwyliu'r haf, oherwydd derbyniwyd ffeithiau a nodiau ychwanegol gan Angharad Rhys o Gaernarfon — sydd a'i thelu yn hannu o ardal Efail Newydd. Mae'n amau'r gosodiad mai John Roberts a Thomas Williams a fu'n gyfrifol am adeiladu'r tŷ, ac y mae'n dyfynnu ystadegau'r gwahanol gyfrifiadau i brofi hynny.

Yn 1841, enwir un Efail Newydd. Yno y trigai John Jones a'i wraig. Yn Waenyrallt (?) trigai Ellis Hughes, ei wraig, Grace, a'i ferch Jane. Roedd yr Ellis Hughes hwn yn frawd i fam-yng-nghyfraith y John Roberts uchod. Erbyn 1851 roeddent yn byw yn Cefn y Waen yn yr un ardal. (Ble roedd y tŷ hwnnw tybed?) Yng Nghyfrifiad 1851 ni enwir Refail Newydd, ond ceir y tri thŷ canlynol: Cefn y Waen, Rhen Efail a Refail. Erbyn 1861 a'r Cyfrifiad nesaf, mae'r tri enw wedi diflannu, ac yn eu lle daw rhifau 1, 2 a 3 Efail Newydd. Yn un o'r rhain y trigai Ellis Hughes.

Yng Nghyfrifiad 1871 eto, mae tri Efail Newydd. Yn y cyntaf trigai Ellis Hughes, ei ail wraig a'i wyres. Yn yr ail trigai Thomas Williams, ei wraig a'i fab — William Williams a'i wraig yntau a'i fab, William Williams. Yn y trydydd trigai John Roberts, ei wraig, Margaret a'i fab a'i ferch. Yr ail Efail Newydd a ddaeth yn ddiweddarach yn Llys Iolen, a'r trydydd a ddaeth yn Isgaer. Pam y newid enwau? Dyma ddywed Angharad Rhys: 'Credaf i'r newid enwau gymry lle pan gynyddodd y defnydd o'r post. Ar lythyrau at fy nhaid ceir y cyfeiriadau isod: "Efailnewydd, Pontrhythallt" a "Glasgoed, Pensiarnwaen RSO". Ar gerdyn coffadwriaeth Margaret Roberts (fy hen nain) yn 1914, y cyfeiriad yw Efail Newydd, Pontrhythallt.'

Oherwydd fod Cyfrifiadau'n rhoi mwy o wybodaeth nac enwau tai a phobl, mae'n bosibl hefyd ddarganfod o ble roedd trigolion Efail Newydd yn dod yn wreiddiol. Unwaith eto: 'Ynghylch Thomas Williams, taid Mrs M. G. Williams, Bethel, — daeth ef i'r ardal, yn enedigol (fel ei wraig) o Abererch. Dod i'r ardal o Lanidan (Brynsiencyn) a wnaeth

John Roberts i weithio yn y Glasgoed, lle y cyfarfu a fy hen nain.'

Felly, yn 1841 roedd John Jones yn Efail Newydd ac Ellis Hughes yn Waenyrallt, wedyn Cefn y Waen, wedyn Efail Newydd. Ai'r un tŷ oedd y tri? Pwy oeddynt, ac o ble y daethant i'r ardal?

Yn ddiweddar deuthum ar draws cofnodion yn dyddio o 1556 yn enwi dwy erw o dir yn Llanddeiniolen, sef *Kefn bodevago issaff a Kefn bodevago uchaff* (Cefn Bodiago?) Mae'n amlwg oddi wrth y disgrifiad ynghlwm wrth y dogfennau fod y tir rhywle yn yr ardal rhwng Dinas Dinorwig, Cae Metta a'r Crawia. Os oes rhywun yn gwybod ble mae'r tir, neu'n gwybod am enwau caeau yn yr ardal yn dwyn yr enwau, a fyddychwch cystal a chysylltu.

Gwasanaeth Beirniadol Oriol

Oes gennych chi ddiddordeb mewn llenyddia?

Hoffech chi gael barn onest, arbenigol ac adeiladol ar eich gwaith? Beth bynnag yw eich dyleit — boed farddoniaeth neu ryddiaith, gall Gwasanaeth Beirniadol Oriol eich cynorthwyo i fod yn well llenor.

Ymhlith ein tiwtoriaid ar hyn o bryd y mae Meg Dafydd, Bryan Martin Davies, Menna Elfyn, Aled Islwyn, Harri Pritchard Jones, Nesta Wyn Jones, Rhiannon Davies Jones, W. J. Jones, Iwan Llwyd, Emrys Roberts, John Rowlands, M. Rhiannon Thomas a Mari R. Williams.

Os hoffech ragor o fanylion cysylltwch ag Oriol, Siop Lyfrau Cyngor y Celfyddydau, Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA.

Y Gwir a'r Gau

John E. Williams

Boddhaus oedd darllen sylwadau, fy nghyn-gymdogaes, Mrs M. G. Williams, Bethel, yn y golofn 'Chwilota', am yr eiddo diflanedig; Bryn Costrelau, ar safle gyferbyn â ni yn y fan yma ar Allt Riwth. Hi bellach yw un o'r rhai prin hynny ar lawr y plwyf, sy'n meddu gwybodaeth gywir am hynafiaethau'r fro yma.

'Roeddwn i, fel eraill wedi cario cam-argraff barhaus am yr Efail Newydd. Credid fod yno ofaint wedi bod ar un cyfnod. Ond cefais agoriad llygad gan rhyw fonheddwr am tyn-nodd i sgwrs am y lle, yn ddiweddar. 'Roedd ei hynafiaid wedi trigo yno, ac yn ôl ei ddamcaniaeth — sydd yn rhwydd gredadwy — daeth yno fudwr o'r Efail Newydd, Llŷn, yr hwn a gludodd enw ei fro i'w ganlyn; arferiad sydd wedi bod yn gyffredin iawn ar hyd a lled, yn enwedig ymysg hen ffermwyr yn ymddeol, oedd yn cario enwau eu ffermydd i'w canlyn i roi ar dai moel, a rheiny mewn aml i gyswllt yn hynod o anaddas i'r anedd newydd, fel fy nhrigfan innau: Y Gors, sydd wedi achosi i aml un a fygythiai ymweld i ofyn: 'Oes isio dŵad â Wellingtons?'


Daeth y cyfeiriad at Fryn Ecla hefyd a chof i mi am ddamcaniaeth brodor tafodrydd o'r Waen Winau am y lle hwnnw. Yn y fan honno y darfu iddyn nhw gychwyn gneud 'Eccles Cakes', medda fo. Ond gan fod yna gymaint o fynd ar y cynhyrch erbyn hynny, rhoedd rhaid ymledu. Doedd ffatri bach Bryn Ecla fuaswn i'n meddwl ddim hannar digon mawr i gyfarfod â'r fasnach a'r gofynion. Penderfynwyd symud yr holl 'sanhedrin' chwalad ynta, i Fanceinion. Ac yno mae hi byth. Ond y golled fwy i'r Waen ddylwiwn oedd y ffaith eu bod nhw wedi mynd â'r resét i'w canlyn. 'Doedd yna ddim ar gael wedyn yn Siop Waen ond 'teisis clatch'.

Ond i roi gwamalmrwydd o'r naill du am funud; 'roedd un arall o'm cyn-gymdogaion — a oedd wedi meddianu'r drum yma ar un cyfnod — y diweddar Hugh Roberts, Pen y Gaer, yn cynnig eglurhad a oedd yn llawer mwy derbyniol: Bryn-y-Clafdy oedd enw'r fan, fel y Rhyd honno yn Llŷn. Aeth hwnnw ymhenn treuliad i Fryn-y-Claf, ac ar lygriad tafodiaith i Fryn Ecla. Pwy a ŵyr? Ond o rai hirbell agweddu, gellir dychmygu mai nid natur ei hunan a lawn ffurfiodd amgrwm y bryn.

Daeth i'm meddiant hefyd o Ben-y-Gaer, garreg ar ffurf ŵy carbwl, yn amlwg wedi ei gaboli â llaw ac nid

rhediad dŵr. Mae arni'r rhif Rhufeinig VII. Dywedir iddi gael ei throï i'r wyneb gan yr aradr, a'i hanfon wedyn i Fangor i sylw 'pobl sy'n diddori mewn rhyw dacla fel'na, ac iddynt ddod i'r casgliad mai pwysau Rhufeinig ydyw. Ond os yr oedd yr ymherodraethwyr rheiny yn cydnabod unedau pwysau 'run fath â'n hen rai ni, yna aeth aml un adra mi ddychmygwn, yn fyr ei fesur. Dipyn tros chwephwys ydy'r garreg.

Ond dywed hynafiaethwr arall, a ddaeth i'r fro yn ddiweddar, mai maen i falu ceirch yn flawd â llaw mewn breuan ydyw, a'i bod yn perthyn i gyfnod Celtaidd cynharach. Duw sy'n gwybod.



Wrth drafod pynciau fel hyn yn dafodrydd, ac yn arbennig enwau, cystal yw cadw mewn cof sylw Aneurin Talfan Davies yn ei Lyfr, 'Crwydro Sir Gar': 'Peth peryglus,' meddai, 'yw cynnig esboniad ar enwau lleoedd heb wybodaeth enfawr gŵr fel Syr Ifor Williams, i gadw dyn rhag cyfeiliorni'.

Serch hynny: difyr yw damcaniaethu, a diddorol yw'r golofn 'Chwilota'.

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail

OCSIWN CIST CAR
ar dir yr Ysgol

Bore Sadwrn, 12 Hydref
am 9.30

Cost £3 y car

Elw at Gronfa'r Ysgol

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

Beth am ddysgu
dreifio gydag

YSGOL YRRU

BETHEL

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel

PORTDINORWIG

671009

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Dyna dymor yr haf yn prysur dynnu i'w derfyn unwaith eto, gobeithio i chwi i gyd fwynhau mymryn o wyliau er na fu'r tywydd yn rhy garedig wrthym ar y dechrau. 'Roedd yn braf gweld rhai o gyn-drigolion y pentref yn dod yma ar ymweliad.

Cyn y gwyliau bu llawer iawn o'n plant a'n pobl ifanc yn brysur iawn yn paratoi ar wahanol arholiadau. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt am wneud mor dda, a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Daeth llwyddiant cerddorol i ran llawer — Piano: Lowri Edwards, Melin y Wig, Gradd 1; Ffrion, ei chwaer, Gradd 3; Awena Williams, Garreg Fawr, Gradd 2; Iona, ei chwaer, Gradd 3 gyda theilyngdod; Manon Evans, Arfryn, Gradd 3; Derfel Parry, Bron Llewelyn Gradd 2. Ffliwt: Bu'r canlynol yn llwyddiannus yng Ngradd 2 arholiad ffliwt — Heledd Elfryn, Hazel Griffith, Emma Bithnell, Branwen Owen, Ceryl Davies a Ian Roberts; Gradd 3, Bethan Cadwaladr a David E. Owen; Gradd 4, Ffion Edwards; Gradd 5, Delyth Jones. Clarinet: Awena Williams, Gradd 2; Manon Evans, Gradd 3. Telyn: Catrin Keller, Stâd Croesywaun, Gradd 5 gyda theilyngdod. Gwaith Theori: Eleri Jones, Bron Eifion, Gradd 1; Hefina Jones, ei chwaer, Gradd 5 gyda anrhydedd a Meilir Gwynedd, Nant, Gradd 5. Llongyfarchiadau ichi i gyd.



Bu un o aelodau Antur Waunfawr yn brysur yn ddiweddar yn gwau a gwnio teganau meddal i'w hanfon i blant bach yn Rwmania. Roedd Eira Wyn Roberts, Llwyn Celyn, fel llawer un, wedi teimlo trueni dros y plant amddifad yno a bu'n ddiwyd iawn yn creu'r teganau fydd yn gysur mawr i'r plant bach wedi iddynt gyrraedd pen eu siwrnai.

Llongyfarchiadau:

— i Tina Parry, Bryn Golau ar ei dyweddiad â Michael Williams o'r Felinheli;

— daeth ŵyr ac wyres fach newydd i fywyd Mr a Mrs T. H. Williams, Llwydiarth, ganwyd mab bychan, Rhydian i'w merch Delyth a'i gŵr Michael, brawd bach i Elgan a Deion; a ganwyd merch fach, Ffion Haf, i'w mab Ian a'i wraig Lesley, Stâd Tŷ Hen. Llongyfarchiadau ichi a chroeso i'r rhai bach.

— i Mrs Sylvia Peters a'i mab Christopher am ennill gwobrau yn Eisteddfod Clwb y C.B.

Cydymdeimlo:

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs S. Williams, Stâd Bro Waun;

— â'r Parch John Glyn, Garmon, yn ei brofedigaeth o golli ei dad;

— â Mrs Thomas, Tŷ'r Heddlu, ar golli ei thad;

— â Mr John Cotton, Grug y Mynydd, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

Adref o'r ysbyty: Yn ystod yr haf gorfu i Mrs Lorna Parry, Afallon; Mrs Gwen Jones, Bod Arthur; Mrs J. Price, Tref Eilian; Miss K. Humphreys, Bro Waun; Nan Wyn, Tan-y-Fron; Alistair Addison, Lloches; Mathew Gosset, Stâd Pan Waun; Mrs M. Mallinson, Dolwar Fach; Mr George Taylor, Baladeulyn; Mr Geraint Griffith, Stâd Bro Waun a Sian Jones, Morawel fynd i'r ysbyty. Gobeithio eich bod i gyd yn gwella erbyn hyn.

Ymweliad â Phlas Buckingham: Bu Adrian Roberts, 9 Bryn Golau, yn cynrychioli Bwrdd Nyrsio Cenedlaethol Cymru mewn parti gardd brenhinol ym Mhalas Buckingham yn ystod mis Gorffennaf. Llongyfarchwn Adrian am ei lwyddiannau ym myd nyrsio a dymunwn y gorau iddo i'r dyfodol.

Hefyd cafodd Mr a Mrs Johnstone,

Tŷ Gwyn, fynd i'r parti. Enwebwyd Mrs Alice Johnstone gan Major Kirby,

dirprwy Lieutenant Gwynedd, i gynrychioli y Ffiwsilwyr y Gwarchodlu Cymreig mewn gwerthfawrogiad o'i gwaith yn eu hamgueddfa yng Nghastell Caernarfon.

Dathlu penblwydd: Yn ystod mis Gorffennaf bu Andrew Beech, Rose Mount, yn dathlu ei 18 oed; ac yn ystod mis Awst dathlodd Scot Lord, Bryn Hyfryd; Gwyndaf Williams, Tros-y-Gors a Mark Basterfield, Tŷ'n 'Rardd, eu penblwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau ichi hogia. Tro y genod fu hi yn ystod mis Medi. Llongyfarchiadau i Nia Llwyd, Dôl y Coed a Mandy Griffiths, Bro Waun, ar eu penblwydd hwythau yn 18 oed.

Diolch: Dymuna Mr George Taylor a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl. Diolch yn arbennig i'r meddygon teulu, nyrsus y pentref a staff Ward Twrog Ysbyty Eryri am eu gofal tyner dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch hefyd i'r Parchedig Gwynfor Williams am ei wasanaeth ac i Mr Gwilym Jones a'i Fab am y trefniadau angladd. Derbyniwyd yn ddiolchgar iawn £305 tuag at Feddygfa Waunfawr.

Ras yr Antur: Cynhelir Ras flynyddol Antur Waunfawr ddydd Sadwrn, Medi 28, am 2 o'r gloch o'r Ganolfan. Bydd stoninau a phaned ar gael.



Dymunwn yn dda i lorwerth Williams, Heli, Waunfawr, yn ei swydd newydd ar un o Ynysoedd y Caribî. Bydd yn dysgu am ddwy flynedd mewn Ysgol Arbennig ar Ynys y Grand Cayman. Pob lwc.

Dymuniadau da i bob un o'r pentref fydd yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd newydd ym mis Medi, a phob dymuniad da i'r rhai sydd wedi cychwyn gyrfaedd mewn gwahanol alwedigaethau yn ystod y misoedd diwethaf.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs Smith, Rhoslan, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, ac at Mr Jones, Y Bwthyn.

Llongyfarchiadau:

— i Deborah a Keith, Hen Dŷ, ar enedigaeth merch fach, wyres i Ann, 4 Ael y Bryn ac Evan Wyn, 10 Ael y Bryn;

— i Gwendoline a Dick Rowlands, Bryn Golau, ar ddod yn daid a nain, ganwyd meib bach i'w mhab Graham ac Alison;

— i Linda Jones, Stâd Tŷ Hen, ar ei phriodas â John A. Jones, 4 Gwelfor, Rhosgadfan;

— i Sian Davies, Gwyrfa, ar ei phriodas â Graham Sturman.

Cronfa Canolfan Waunfawr — enillwyr y Clwb 300:

Mis Mehefin — 1, £40: Mrs Olwen Owen, 18 Tref Eilian; 2, £25: Mr Gwilym Hughes, 16 Tref Eilian; 3, £10: Mrs Edwards, Coed Gwydryn.

Mis Gorffennaf — 1, £40: Mrs Cadi Jones, Nant; 2, £25: Mr a Mrs Raymond Parry, Ffridd Felen; 3, £10: Mr J. G. Jones, Hafod y Rhug.

Hospis yn y Cartref: Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor Hospis yn y Cartref yn y Ganolfan, nos Fawrth, 12 Awst. Adroddodd y trysorydd, Mrs Mair Williams, mai cyfanswm yr apêl ar hyn o bryd yw £1,851; casglwyd £516 yng Nghaeathro a £1,335 yn y Waunfawr. Targed y pwyllgor yw £2,000 ac er mwyn cyrraedd y ffigwr yma bwriedir cynnal rhyw ddau weithgaredd eto.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r pentrefwyr am gefnogi'r apêl mewn modd mor hael.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd gwibdaith i ddiweddu y tymor ac ymwelodd y gangen a Phlas Tan y Bwlch. Cawsom ein croesawu gan Mr Twm Elias a chyfle i fwynhau yr olgyfa braf dros ddyffryn Maentwrog i gyfeiriad Ardudwy. Yr oedd bwffe ardderchog yn ein disgwyl wedyn, digon o ddewis i gigfwtawyr a llysiuwyd fel ei gilydd. Wedi i bawb gael eu gwala diolchodd Mrs Mary V. Jones i'r swyddogion a oedd wedi cwblhau eu tymor o waith, yn enwedig Rhian Jones, Glenys Williams a Llinos Cadwaladr. Croesawyd swyddogion y tymor nesaf, sef Llywydd: Mrs Mary V. Jones; Ysgrifennydd: Gill Brown; Trysorydd: Joy Glyn.

Cawsom ein difyrru am weddill y noson gan Mr Twm Elias a'i gasgliad o hanesion a rhigymau. Cafwyd diwedd glo hapus felly i'r tymor.

W.E.A. / Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Waunfawr: Cynhelir deg cyfarfod yng nghwmni y Prifardd Ieuan Wyn i drafod cerddi, a ddechreuodd ar nos Fawrth, Medi 24 am 7 p.m. yn yr Ysgol Gynradd Waunfawr.

Yr Ysgol: Peth braf ydy gorffen tymor yr haf, a chau pen y mwdwl ar y flwyddyn mewn hwyliau da. Mae hyn bob amser yn bwysig i'r plant sydd yn gadael yr ysgol gynradd a'u cwpan profiadau ac atgofion yn prysur lenwi.

Fe gofian' nhw rwy'n siwr am drip ysgol bendigedig a gawson ni i Eisteddfod Llangollen. Trip hamddenol ar y gamlas, a rhywun yn cael y brênwef o fwyta ein picnic tra'n teithio yn y cwch. 'Roedd o'n syniad da hyd nes i'r hen geffyl benderfynu rhoi ei ben mawr blewog i mewn i ganol y plant a sglaffio brechdanau, creision, Kit Kat a phob dim oedd o fewn ei gyrraedd!

Diwrnod o ryfeddu oedd hi. Gwirioni'n lân ar y dawnswyr a'u

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

gwisgoedd lliwgar. Dotio at bob math o offerynnau cerddorol gwahanol, a synnu wrth glustfeinio ar ieithoedd a cherddoriaeth mor ddiarth. Diwrnod gwerth chweil i ni i gyd.

'Roedd y tywydd o'n plaid ni noson y daith feics noddedig hefyd. Nos Wener braf yng Ngorffennaf oedd hi a chryn drigain o blant, athrawon ac ambell i riant (diolch amdanol) yn cychwyn o hen Stesion Pen-y-groes i lawr heibio Pen Nionyn, y Goat, a chyrraedd Caernarfon. Credai ambell un mai 'Antur enbyd ydy hon' fyddai profiad sawl un o'r athrawon, gan fod mor feiddgar a chynnig betio 100 i 1 mai'r brifathrawes fyddai'r gyntaf i gyrraedd! Pwmpas yr hwyl oedd codi arian i gronfa'r ysgol, ac yn wir casglwyd dros fil o bunnau. Diolchwn i bawb am noddi'r plant a'r athrawon.

Enillwyd y Darian Gerdd eleni gan Manon Wyn Evans am ei chyfraniad cyson a graenus i holl weithgareddau cerddorol yr ysgol. Enillwyd y Darian Cywaith gan Lowri Huws. Ysgrifennodd Lowri gywaith diddorol ar fywyd a chysylltiadau cymreig Lloyd George.

Rhwng cawod a hindda fe lwyddwyd i gynnal y mabolgampau. Enillwyd tarian y bechgyn gan Mathew Gosset a tharian y merched gan Sioned Eleri Jones. Cyflwynwyd y Cwpan Ymdrech i Christina Williams.

Cyfeillion Ysgol Waunfawr: Yn dilyn cyfarfod yn yr Ysgol sefydlwyd y Gymdeithas uchod a chodwyd pwyllgor. Pwmpas y gymdeithas fydd codi arian i brynu offer angenrheidiol i'r ysgol. Medi 13 cynhaliwyd Twmpath Dawns yn y Ganolfan. Hefyd byddwn yn cael stondin yn ystod Ras Antur Waunfawr ddiwedd Medi. os oes gan rywun gyfraniad at y stondin os gwelwch yn dda cysylltwch â Mrs Ann Jones ar Waunfawr 763.

Mae'r plant (ac athrawon) wedi bod yn brysus yn barod. Aeth y babanod ar daith gerdded noddedig o gwmpas Glynllifon, a'r plant hynaf ar ei beics o Ben-y-groes i Gaernarfon ar hyd Lôn Eifion. Bellach mae'r arian wedi ei wario ar larwm lladron a Chanolfannau Gwrando 'Coomber' i bob dosbarth. Mae angen llawer mwy o offer ar yr ysgol, felly apeliwn am gefnogaeth trigolion Waunfawr yn ein gweithgareddau, er mwyn helpu addysg ein plant.

Gwella: Da deall fod Ffilyr Llywelyn, Stâd Tref Eilian, yn gwella yn yr ysbty ym Mangor.

Llongyfarchiadau: Anfonwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau at Miss C. E. Williams, Is-Eilian gynt, ar gyrraedd ei phenblwydd yn 91 oed yn ystod mis Awst. A'n llongyfarchiadau hefyd i Mrs L. Evans, Tegfan, ar ddathlu ei phenblwydd yn 89 oed.

Cydyndeimlwn â Mr Mike Perkins, Ty Newydd, yn ei brofedigaeth o golli ei dad, a oedd yn byw yn Bychan Lees Cottage.

Ac â Morus Elfryn, Coed Gwydryn, ar golli ei frawd.

Anfonwn ein cydyndeimlad llwyrat at Mrs M. Jones, Gadda, Leslie a Nan, ar golli priod a thad, sef Joseph Jones, ar ôl cystudd hir. Hefyd at Mrs Bessie Coles, Pant Waun, a Mr Humphrey Jones, Tŷ Coch, ar golli brawd.

Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Mr Barnes, Fach Goch, a Mr Meirion Jones, Crud yr Awel, ar eu hymddeoliad.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd tymor y Gymdeithas yn cychwyn nos Lun, Hydref 28 — diwrnod pan mae'r ysgolion yn ail-ddechrau wedi gwyliau hanner tymor — gyda darlith hwyliog gan y Parchedig W. R. Williams, Y Felinheli, o dan y pennawd 'Esgidiau'. Yn ystod y ddarlith cawn wybod am y gwahanol fannau yr aeth esgidiau y siaradwr ag ef yn ystod ei fywyd. Mae digon o amrywiaeth yn y rhaglen y tymor hwn eto, yn wir bydd yr ail gyfarfod, nos Lun, Tachwedd 11, yn golygu torri tir newydd pan y ceir 'Noson Lawen' cyfyngedig i aelodau y Gymdeithas yn unig. Cynhelir y noson gan barti talentog 'Hogia'r Mynydd' o ardal Mynytho yn Llŷn. Yn ystod y tymor ceir sgrysiu gan Bobbie Haines am ei dref enedigol, Ken Robinson yn sôn am y lein o Gaernarfon i Afonwen ers talwm, a sgwrs gan y Parchedig John Gillibrand a Capten Gwyn Parri Huws yn sôn am 'lwybrau'r môr'. Bu yn rhaid codi'r tâl aelodaeth y tymor hwn i £2 yr un, ond o gofio y ceir wyth cyfarfod yn y Ganolfan rhwng Hydref a Mawrth yna mae ymaelodi â'r Gymdeithas yn fargen yn sicr! **Eisteddfod Waunfawr:** Fe gafwyd noson lwyddiannus yn ddiweddar i godi arian tuag at yr Eisteddfod. Gwnaethpwyd o gwmpas £100. Enillwyr y raffl oedd — Hampr o ffrwythau: Derfel Parry; Bocs o Siocled: Iona Williams; Bocs o Siocled: Margaret Owen; Enw'r ddol: Heulwen Huws; Pwysau'r Deisen: Gerallt Jones; Faint o Bethau Da mewn potel: Heulwen Jones; Ynys y Trysor: Rhys Huws. Fe hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb

am eu cefnogaeth. Cofiwch am yr Eisteddfod ar Hydref 12, yn y Ganolfan. Fe fydd Mrs Marsdon yn y Ganolfan fore Sadwrn, Medi 21 a 28 i ymarfer hefo'r plant ar gyfer yr Eisteddfod o 9.30d - 10.30. Gobeithio y dewch yn llu.

Nos Lun, Medi 30, yn y Ganolfan, gwneud model o wastraff am 6.30 o'r gloch i blant blwyddyn 1, 2 a 3 Ysgol Uwchradd, a nos Fercher, 2 Hydref yn yr Ysgol gwaith llaw, coginio a ffotograffiaeth, rhwng 5.30 - 6.00 o'r gloch.

Testun y Siarad Cyhoeddus yw: 'Ni ddylid dileu'r gair "brenhinol" o

Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru'; neu 'Mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc wedi gwneud mwy dros Gymru na Mudiad yr Urdd'; neu 'Dangosodd Eisteddfod Genedlaethol Yr Wyddgrug mai merched yw prif lenorion ein gwlad'; neu

'Cyw a fagwyd yn uffern yn uffern y myn o fod'.

Diolch: Dymuna Meic a Delyth, Tan y Coed, Stâd Bod Hyfryd, ddiolch i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab Rhidian Llŷr, brawd bach Elgan a Deion.

Emyr yn Trefnu y Tîm

Y gŵr sydd wrth y llyw yn y rhaglen fuddsoddi helaeth ym Maentwrog yw Emyr Wyn Jones. Fel Rheolwr Prosiect, bydd Mr Jones, a anwyd yng Ngwynedd, yn gweithredu fel cydgysylltydd i sicrhau y bydd pob agwedd ar y cynllun aillofferiannu a gwaith cysylltiol arall sy'n cael ei wneud yno yn mynd rhagddo yn ddidramgwydd.

Meddai: 'Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud ac yn cwblhau gwaith perianyddol llwyddiannus, rhaid i ni wneud yn siwr fod cynlluniau a'r staff profiadol angenrheidiol yn barod i drefnu'r gwaith yn ein swyddfa yng Nghaerloyw gyda'r gwahanol contractwyr, ag ar y safle.

'Mewn gwirionedd mae'r gwaith yn cael ei wneud gan dim o bobl sy'n gweithio yn unol â chynllun ac o fewn cyllideb gaeth. Fy ngwaith i yw cydgysylltu'r holl agweddau yma.'

Canlyniad misoedd lawer o gynllunio gofalus yw'r naw mis o weithgarwch dygn ar y safle, sef datgymalu a symud yr hen beiriannau a gosod offer newydd yn eu lle.

Bydd y bobl leol ar eu hennill o safbwynt gwaith, er enghraifft, mae'r prif contractwyr, civil Kier Construction sy'n gweithio ar y safle yn barod, yn cyflogi gweithwyr lleol a hefyd yn prynnu ei defnyddiau yn lleol.

Meddai Mr Jones: 'Yr ydym yn manteisio ar yr ataliad, sy'n angenrheidiol i osod yr offeiriant newydd, i wneud gwaith arall perthynol, megis peintio'r pibellau sy'n cysylltu'r orsaf bwer a'r argae sydd newydd ei hadeiladu — job anferth ei hun.'

Ychwanegodd: 'Mae Maentwrog mewn ardal eithaf gwledig ac mewn rhan hyfryd o Ogledd Cymru. Yr ydym yn gofalu mai ychydig iawn o darfu fydd ar y gymuned leol er gwaethaf y gwaith mawr sy'n cael ei wneud.

'Yr ydym hefyd yn benderfynol na phery unrhyw anhwylystod, waeth pa mor fychan ydyw, ond am y



cyfnod byrraf posibl. Bydd canolbwyntio ar rannau arbennig o'r gwaith ar adegaw penodol yn caniatáu inni wneud hyn. Byddwn yn cadw adeilad yr orsaf bwer bresennol, dim ond yr offer o'i fewn ac o'i amgylch fydd yn newydd.'

Yn wreiddiol o Lanrug, ymunodd Mr Jones a'r Bwrdd Cynhyrchu Canolog yn 1957 fel prentis a dringo'r ysgol i'w safle bresennol yn Trydan Niwclear ccc, olynnydd y B.C.T.C. (C.E.G.B.) Yn ystod ei yrfa y mae wedi gweithio mewn gorsafoedd pwer ar yr ochr ddylunio ac adeiladu prosiectau mawr.

Bu Mr Jones, fel Peiriannydd Prosiect, neu fel Rheolwr, ynglŷn â'r gwaith o lunio a rheoli datblygiadau sylweddol mewn perthynas a gorsafoedd pwer, gan gynnwys Hartlepool, Heysham 1, Dungeness B a Wylfa B, a cyn hynny ar lunio nifer o orsafoedd pwer confensiynol a prosiect Sizewell B.

'Mae Maentwrog yn bwysig iawn yn ein golwg, nid yn unig oherwydd ei fod yn fuddsoddiad gwerth chweil ar gyfer y dyfodol, ond hefyd am mai dyma unig orsaf trydan dŵr trydan niwclear ac oherwydd fod iddi, yn ogystal, fanteision amgylcheddol yr ydym yn awyddus i'w gwarchod.'

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
Beth am eich parti 'Dolig eleni
partïon o 10 i 50'
**Cinio Twrci 3 cwrs o £8.50 (nos)
neu £7.50 yn y dydd**
Croeso cynnes i bawb oddi wrth Danny a Nerys

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552



Dirprwy Brifathrawes Newydd

Ar ddechrau'r tymor newydd dechreuodd Mrs Eurwen Williams ar ei swydd fel Dirprwy Brifathrawes Ysgol Brynrefail. Yn enedigol o Gaergybi, bu Mrs Williams yn gweithio mewn nifer o ysgolion yr awdurdod cyn ei phenodi yn Uwch Athrawes yn Ysgol Gyfun Llangefni. Estynnir croeso cynnes iawn iddi i fro'r Eco.



PRIF DDISGYBLION 1991-92



Gwelir y ddau gapten, sef Bryn Ceirion Jones a Lynn Roberts, yn y canol yn y llun uchod, gyda'r is-gapteiniaid Euron Thomas, Rhodri ap Llwyd, Mared Wyn Sutherland a Lowri Gwenllïan Williams o bob ochr iddynt.

Ffarwelio ag Aelodau o'r Staff

Ar ddiwedd tymor yr haf daeth cyfnod sylweddol o hanes yr ysgol i ben gydag ymddeoliad Mr Meirion Wyn Jones. Bu'n gyfnod sylweddol gan fod Mr Jones ag eithro cyfnod yn y coleg, wedi treulio ei oes yn Ysgol Brynrefail fel disgybl yna dychwelyd fel athro cyn ei benodi yn Ddirprwy Brifathro.

Tasg amhosibl fyddai mesur ei gyfraniad i'w fro dros y cyfnod maith yma, ond mae'n wir dweud fod dyled fawr gan genedlaethau o ddisgyblion yr ardal i Mr Meirion Jones. Un o'i rinweddau pennaf fel athro ac fel Ddirprwy Brifathro oedd ei wybodaeth helaeth am gefndir ac anghenion unigol ei ddisgyblion ynghyd a'r gallu i uniaethu a chydymdeimlo â'u anghenion.

Dyn ei filltir sgwâr yw Mr Meirion Jones a mawr yw diolch y disgyblion a'r staff am flynyddoedd helaeth o wasanaeth ffyddlon a pharod i'w gymuned.

Yn anffodus bu'n absennol o'r ysgol drwy waeledd yn ystod y flwyddyn olaf yma, felly, hyderwn y caiff adferiad llwyr a blynyddoedd maith o ymddeoliad dedwydd iawn.

Fe ymadawodd dau aelod arall o'r staff ar ddiwedd y tymor. Penodwyd Mr Hywel Roberts yn Bennaeth Adran Cemeg Ysgol Eifionydd a bydd Mr Richard Lloyd Jones yn gadael i ddilyn galwedigaeth y tu allan i fyd addysg. Mae Ysgol Brynrefail yn ddyledus i'r ddau am eu gwasanaeth a'u cyfraniad dros nifer o flynyddoedd. Dymunir yn dda i'r ddau i'r dyfodol.

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Cafwyd noson hynod o hwyllog a llwyddiannus nos Wener, 5 Gorffennaf, ar gae chwarae'r Ysgol. Cyfunwyd defod tynnu'r raffl â chystadlaethau pêl-droed fel

Menter Pêl-fasged Philippides

Bydd pobl ifanc Arfon yn bowndio peli yn y parciau ac ar y palmentydd yn ystod y misoedd nesaf wrth i ymgyrch chwaraeon newydd gychwyn yn ysgolion uwchradd y Dosbarth.

Bwriad Menter Pêl-fasged Philippides yw hybu'r gêm o bêl-fasged ymysg pobl ifanc 12-14 oed yng Ngwynedd.

'Teyrnedd i un o wŷr mawr pêl-fasged yw'r fenter hon,' medd Cadeirydd Cymdeithas Pêl-fasged Gwynedd, Mr Ieuan Jones. 'Roedd Charalambos Philippides yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas yng Ngwynedd ac yn gyfaill da i bawb oedd yn ymwneud â'r gêm yn y Sir. Gweithiodd yn ddi-flino i gyflwyno'r gêm i bobl ifanc a gadawyd gagendor yn y gêm yn lleol a chenedlaethol gyda'i farwolaeth.'

Ffermwr yn Nhŷ Croes, Rhosneigr, oedd Mr Philippides ac iawn o beth mai ysgolion Ynys Môn fydd yn manteisio ar waith Menter Pêl-fasged Philippides y flwyddyn nesaf.

'Ynys Môn fydd yn cael ei thargedu y flwyddyn nesaf,' meddai Marianne Jeffrey, Swyddog Datblygu i Wynedd Cyngor Chwaraeon Cymru. 'Rydym wedi rhoi dros £400 o nawdd i'r cynllun hwn eleni ac yn fodlon ei noddi eto ar Ynys Môn os yw'n llwyddiant yn Arfon.'

Bydd llwyddiant y fenter yn digynnu i raddau helaeth ar ymateb y rhieni i'r sesiynau. 'Rydym yn gobeithio y daw rhieni i'r sesiynau hyfforddi i wyllo'r bobl ifanc wrthi

ac i ddysgu,' meddai Ieuan Jones. 'Bydd yr hyfforddwyr yn rhoi dwy awr yr wythnos o'i hamser o ganol fis Medi ymlaen i geisio sefydlu cynghrair yn Arfon o bedwar clwb gydag aelodau rhwng 12 a 14 oed. Ein gobaith yw y bydd rhai rheini yn fodlon parhau gyda'r clwb wedi i gyfnod deng wythnos yr hyfforddwyr ddod i ben.'

Y bedair ddwydd sydd wedi cael cynnig i dderbyn hyfforddiant pêl-fasged gan Menter Pêl-fasged Philippides yw Ysgol Syr Hugh Oswen, Caernarfon; Ysgol Brynrefail, Llanrug; Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda ac Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes. Bydd posteri yn yr ysgolion yn fuan, felly gwylwch amdanynt!



ERYRI ORGANIG

LLANFAGLAN

Ffôn: C'fon 76905

Rhwng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtait ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

gweithgaredd diwedd y flwyddyn. Gwnaed ceisiadau ymlaen llaw am gefnogaeth rhieni o bentrefi'r dalgylch ac o ganlyniad fe gafwyd pedwar tîm o ferched, sef Llanrug, Bethel, Deiniolen ac Athrawesau'r Ysgol; a thri tîm dynion — Bethel, Deiniolen a Llanrug. Y canolwr oedd Richard Lloyd Jones a'r buddugwyr, ar ôl gornestau caled, oedd merch Deiniolen a dynion Bethel. Llongyfarchiadau iddynt.

Gwnaed 'Hot Dogs a Byrgars' ar y cae gan Mr a Mrs John Hughes Jones.

Enillwyr y raffl oedd — £100: Ieuan Lewis, 15 Maes Meirion, Caernarfon; £50: E. Schaffeler, 6 Cae Eithin, Minffordd, Penrhyndeudraeth; £30: B. Edwards, 16 Maes Bleddyn, Llanllechid; £20: G. Jones, 2 Caledffrwd Terrace, Clwt-y-Bont; £10: D. Jones, Derwen Lys, Rhostryfan. Gwnaeth y raffl elw o dros £600 er budd yr ysgol.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r gwirfoddolwyr fu'n gwerthu'r tocynnau ac am bob ymdrech i wneud y noson yn llwyddiant.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858



I DDYSGU DREIFIO EFO

STAN

(Ysgol Yrru Rhiwen)

Ffoniwch

Bangor

364143

Dyddiadur y Mis

MEDI

30 Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band, 7.00.

HYDREF

1 Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau. Llanrug: Y Gymdeithas Undebol, Festri Pontrhythallt. Waunfawr: Dosbarth WEA, 7.00.

2 Mercher. Llanrug a'r Ardal: Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Y Gweledigaethu' yn Ysgol Brynrefail, 7.30.

3 Iau. Brynrefail: Cymdeithas y Chworiydd.

4 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

6 Sul: Llanrug: Capel Mawr — Gŵyl Ddiolchgarwch.

Penisarwaun: Y Gymdeithas Feiblaidd yn Eglwys Santes Helen, 2.00. Cymnfa Ganu yn Bosra, 6.00.

7 Llun. Llanrug: Celf a Chrefft ar gyfer yr Eisteddfod yn yr Ysgol Gynradd, 6.30.

8 Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr yn yr Ysgol Gynradd, 7.30.

Deiniolen: Sefydliad y Merched, 7.30.

10 Iau. Yr Ardal: Sefydliad y Merched — 'Noson Fictorianaid' yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon.

11 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. Llanrug: Eisteddfod y Pentref, 5.30.

12 Sadwrn. Waunfawr: Eisteddfod y Pentref yn y Ganolfan.

13 Sul. Penisarwaun: Eglwys Santes Helen — Gŵyl

Ddiolchgarwch. Cymun Bendigaidd, 10.30; Gwasanaeth 4.00.

14 Llun. Penisarwaun: Ffair Gaeaf yn Neuadd yr Eglwys, 6.30. Bethel: Clwb Bro Rhos yn yr Ysgol, 7.30.

16 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — Arddangosfa 'Gosod Blodau Sych' gan Mrs Sarah Jones, yn y Sefydliad Coffa, 7.30.

17 Iau. Llanrug: Noson Goffi yn Ystafell y Band, 7.00.

18 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

21 Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched.

23 Mercher. Llanrug: Cymdeithas Hanes Bro 'Eco'r Wyddfa' — sgwrs ar P. Bailey Williams gan Edgar Parry, Caernarfon, yn y Sefydliad Coffa, 7.00.

25 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

28 Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band. Waunfawr: Y Gymdeithas Lenyddol — Darlith gan W. R. Williams, Y Felinheli.

29 Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr — Ymweld â Theatr Gwynedd.

31 Iau. Penisarwaun: Noson Calangaeaf yn Neuadd yr Eglwys, 6.30.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi

★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)

★Gwres canolog llawn

★Sustem ddiogelu rhag tân

★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw

★Sustem alw nyrs

★Yn Cwrdd â phob angen personol

★Lle bwyta mawr

★Aros cyfnod hir/byr

★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol

★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.

★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg


★Coginio cartefol

★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg

★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

CROESAIR MEDI



AR DRAWS

1. Erfyn miniog (5)
2. Anifeiliaid gwrywaidd (7)
8. Cant namyn rhif y cliw (3,3,3)
9. Cymro o'r de (3)
10. Rhai cochion hwyrach (7)
12. '___ Bo' (4)
14. Nid benyw fer (7)
17. Yn y genau (4)
18. Nid yw am ddod (3,1,3)
20. 'Dau yn unig' oedd ynddi (3)
21. Adar sydd wir eisiau rhywbeth (5,4)
23. Swm go uchel (5,2)
24. Rhybudd (5)

I LAWR


1. Cawr (13)
2. Achos peswch yn y de (1,4,2)
3. Yr ail neu'r drydedd lleuad (4,4)
4. Pridd gwlyb (3)
5. Dechrau'r goleuni (4)
6. Hanner diamedr (6)
7. Duw'r môr a brenin yr aur (7,1,5)
11. Ochr wen yw'r golygydd yma (5)
13. Yn dychryn rhywun (8)
15. Nid yr un uchaf (2,4)
16. Gorchymyn iti beintio (6)
19. Eofn (4)
22. Wedyn (3)

Enillwyr yr Haf — a'r Atebion


Fe fu'n wyliau ar y croeseirwyr hefyd mae'n rhaid. Chwec yn unig yn ymgeisio, a dim ond pedwar yn gywir. Dau gamgymeriad bychan iawn gan y ddau arall — **BERWINO** yn hytrach na **MERWINO**.

Yr ateb cyntaf allan o'r het oedd: M. Williams, Llwynffynnon, Pistyll.

Anfonwch atebion y mis hwn i'r Golygydd Erthyglau, erbyn dydd Llun, Hydref 14.



FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

• Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**


Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

CHWARAEON

PENBLWYDD HAPUS I GLWB KOKORO SHUKOKAI LLANRUG

Ddiwedd mis Medi bu Clwb Karate Llanrug yn dathlu ei benblwydd yn un oed, ond er mai ifanc iawn ydyw, mae eisoes wedi tyfu ac aeddfedu'n gyflym, a bellach mae dros 50 o aelodau'n perthyn iddo, a'r rheini yn amrywio o ran oedran o blant i bobl. Nid yn unig mae'r 'babi' blwydd wedi tyfu, ond mae ganddo bellach 'chwaer' fach yn Y Felinheli, gan i rai o aelodau Clwb Llanrug sefydlu clwb arall sy'n cyfarfod yno bob nos Lun. Gall aelodau mwyaf brwdfrydig y ddau glwb ymarfer ddwywaith yr wythnos rwan os mynnant.



Kevin Siddall, prif hyfforddwr Clwb Llanrug yn dangos sut i ddefnyddio'r peiriant newydd sy'n helpu i ystwytho'r coesau.

Fel yr adroddwyd yn rhifyn Mai o'r Eco, cynhaliwyd pencampwriaethau arbennig yng Nghanolfan Y Waunfawr i godi arian tuag at gynnal y Clwb. Casglwyd dros £500 yn yr ymdrech arbennig honno, ac yn ychwanegol, derbyniwyd cymorthdal ariannol gan Gyngor Cymdeithas Llanrug. Dywedodd ysgrifennydd y Clwb, Mr Gareth Edwards, eu bod yn arbennig o ddiolchgar i Gyngor Llanrug am eu rhodd ariannol sy'n cydnabod gweithgarwch y Clwb gyda phlant a phobl ifanc yr ardal.


Mae cyfran dda o'r arian eisoes wedi ei wario ar brynu offer newydd i'r Clwb. Prynydd peiriant arbennig sy'n gymorth i ymestyn y coesau, a bydd hwn o gymorth arbennig i'r aelodau i feithrin ystwythder ychwanegol yn y coesau fydd yn eu

galluogi i arddanos dulliau cicio uwch.

Prynydd hefyd yr offer diweddaraf ym maes Karate, sef y 'Mamgym Symudol' sy'n cynnwys ffrâm arbennig i ddal bag cigio a dyrnu. Bydd yr offer arbennig hwn yn helpu'r aelodau i ddatblygu a gwella safon eu cicio a'u dyrnu.

Roedd cost y ddwy eitem dros £400 a gwariwyd gweddill yr arian ar brynu gwahanol eitemau fel padiau, menyf a gwarchodwyr.

Mae'r Clwb yn cyfarfod yn rheolaidd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, bob nos Fawrth; plant am 6.30 ac oedolion am 7.00. Mae clwb newydd Y Felinheli yn cyfarfod ar nos Lun ar yr un amseroedd. Am unrhyw wybodaeth pellach cysylltwch â Gareth Edwards, 54 Cae Mur, Caernarfon.



Kevin Siddall a Gareth Edwards yn defnyddio'r ffrâm gicio a dyrnu. Ar y llawr mae'r amrywiaeth o offer ychwanegol a brynwyd gan y Clwb gyda'r arian a gasglwyd yn ystod blwyddyn gyntaf eu bodolaeth.


PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Er i fisoedd Gorffennaf ac Awst fod, ar y cyfan yn weddol wlyb, ychydig iawn o effaith a gafodd y glaw ar lefel y dŵr yn yr afonydd, ac ar rhyw ddau achlysur yn unig y gwelwyd y dŵf dros y marciau troelli.

Golyga hyn na allai'r pysgod mudol, sef yr Eog a'r Sewin, redeg o'r Fenai i'r Seiont a'r Gwyrfa, ac o fae Caernarfon i'r Llyfni.

Er hyn, daeth ambell un i'r rhwyd yma ac acw, a'r rhai mwyaf nodedig yw'r Sewin 9 pwys a ddaliodd Gerald Morris, Llanrug; a'r Eog 12 pwys ddaeth i Emyr Owen, Deiniolen, y ddau o'r Seiont ger Llanrug. Daeth dau Eog yr un diwrnod ym Mhontrug i enwair Donald Roberts o Gaeathro.

Daliwyd wyth Sewin oddeutu 2 bwys gan Cledwyn Jones, Ysbyty, a phedwar tua 2 bwys yr un i Gwyndaf Jones, Saron, Bethel. Daliwyd y Sewin braf 10½ pwys, a welir yn y llun isod, yn y Llyfni gan Dave Maggs o Borthaethwy.



Daeth nifer dda o Eogiaid hefyd o'r Llyfnwy, gan gynnwys un 6 phwys o Lyn Tro i Harry Owen, Carmel.

'Roedd hefyd yn galonogol fod nifer helaeth o Eogiaid a Sewin gan gynnwys Sewin hyd at 7 pwys yn y Fenai yn disgwyl am godiad sylweddol yn lefel y dŵr i roi'r hyder iddynt i deithio'r afon at eu gwelyau claddu.

Mae Llyn Padarn ar hyn o bryd yn 'sgota'n eithriadol o dda gyda'r Torgoch yn bachu yn aml. Fe gyfraais 18 o enweiri mewn cychod ar y llyn un diwrnod yn nechrau Awst. 'Sgwn i faint oedd heb ymaelodi â'r Gymdeithas. Gwn fod rhai yn dweud fod y tâl yn ddud, ond nid yw'r rhain yn sylweddoli fod y Clwb wedi prynu y rhan fwyaf o'r dyfroedd ble fyddent yn cael sgota pe na bai ni wedi llwyddo i wneud hynny. Mae'r stori yn wahanol yn yr Alban ble mae'r 'Time Shares' wedi prynu pob diferyn gan adael y bobl leol â'u bysedd yn eu cegau heb le i 'sgota. Felly hogia' ymaelodwch da chi, a helpwch ni i orffen prynu ein dŵr cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Llongyfarchiadau i Sara Roberts, Seion, a Keith Lewis, Pen-y-groes am ennill eu lle yn nhimau Rhyngwladol Merched a Pysgotwyr iau, Cymru. Ymdrech ardderchog.

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i gynnal dosbarthiadau clymu pen, a gweithgareddau eraill o ddiddordeb i'r pysgotwr. Os dengys digon ddiddordeb efallai y buasai yn bosib eu cynnal yn Llanberis, Llanrug, Caernarfon neu Pen-y-groes. Os oes diddordeb, yna cysylltwch â mi neu unrhyw aelod arall o'r pwyllgor, sef — Ardal Llanberis a Deiniolen: Maurice Jones, Penllyn; Llanrug: Gwynfor Jones, Ffordd Glan Moelyn; Bethel: Alan Ginsberg, Ysgol Brynrefail; Caernarfon: Norman Dooley, Stryd yr Eglwys; Cecil Hope, Ffordd Bethel; Carl Hooson, Ken Hughes, Hendre; Aled Evans, Twtil; Huw Jones, Bontnewydd; Edwin Lewis, Pen-y-groes; Harry Wyn Owen, Talysarn; Eifion Roberts, Clynnog; Peter Greasley, Waunfawr; Aled Jones, Caethro.

Os bydd digon o ddiddordeb gobeithir cynnal y cyfarfod cyntaf yn ystod mis Hydref neu fis Tachwedd.

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi	Meinciau Concridd a Phren
Cynnal a Chadw	Planters Concridd a Phren
Plannu Coed	Corachod